

Dogfen ir Cyhoedd



**CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	NOTICE OF MEETING
PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION	PLANNING AND ORDERS COMMITTEE
DYDD MERCHER, 1 HYDREF 2025 am 1.00 o'r gloch yp	WEDNESDAY, 1 OCTOBER, 2025 at 1.00 pm
SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM	COUNCIL CHAMBER, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI AND VIRTUALLY THROUGH ZOOM
Swyddog Pwyllgor	Mrs Mairwen Hughes 01248 752518
	Committee Officer

AELODAU / MEMBERS

Cynghorwyr / Councillors:

Geraint Bebb
Jeff Evans
Neville Evans
Glyn Haynes (**Is-gadeirydd/Vice-Chair**)
Kenneth P Hughes
Trefor LI Hughes MBE
John Ifan Jones
Robert LI Jones
Jackie Lewis
Dafydd Roberts
Ken Taylor (**Cadeirydd/Chair**)
Alwen P Watkin
Robin Williams

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fwy a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod

R h a g l e n

Adroddir ar lafar i'r Pwyllgor unrhyw wybodaeth ychwanegol a ddaw i law yn dilyn cyhoeddi adroddiadau.

Efallai y gwneir man newidiadau i rybudd o benderfyniad mewn achosion o gamgymeriadau argraffu adroddiadau i'r Pwyllgor cyn rhyddhau rhybudd o benderfyniad i ganiatau neu i wrthod cais.

AELODAU'R PWYLLGOR

Cynghorwyr:-

Geraint Bebb
Jeff Evans
Neville Evans
Glyn Haynes (*Is-Gadeirydd*)
Trefor LI Hughes MBE
Kenneth P Hughes
John I Jones
Robert LI Jones
Jackie Lewis
Dafydd Roberts
Ken Taylor (*Cadeirydd*)
Alwen P Watkin
Robin Williams

MYNEGAI – mae'r linc i'r Rhestr Gyhoeddus i'w weld o dan pob cais unigol

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

3 COFNODION_(Tudalennau 1 - 12)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 3 Medi, 2025.

4 YMWELIAD SAFLEOEDD_(Tudalennau 13 - 14)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion yr Ymweliad Safle a gynhaliwyd ar 17 Medi, 2025.

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fwy a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod

5 SIARAD CYHOEDDUS

6 CEISIADAU FYDD YN CAEL EU GOHIRIO

Dim i'w hystyried gan y cyfarfod hwn.

7 CEISIADAU'N CODI_(Tudalennau 15 - 26)

7.1 - OP/2025/3 – Ty'n Llain, Malltraeth

[OP/2025/3](#)

7.2 – OP/2025/1 – Ffordd Llanfawr, Caergybi

[OP/2025/1](#)

8 CEISIADAU ECONOMAIDD

Dim i'w hystyried gan y cyfarfod hwn.

9 CEISIADAU AM DY FFORDDIADWY

Dim i'w hystyried gan y cyfarfod hwn.

10 CEISIADAU'N GWYRO

Dim i'w hystyried gan y cyfarfod hwn.

11 CYNIGION DATBLYGU A GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION

Dim i'w hystyried gan y cyfarfod hwn.

12 GWEDDILL Y CEISIADAU

Dim i'w hystyried gan y cyfarfod hwn.

13 MATERION ERAILL_(Tudalennau 27 - 172)

13.1 Gorchymyn Rheoleiddio Traffic

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Priffyrdd, Gwastaff a Eiddo.

This page is intentionally left blank

Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Medi 2025

- YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Ken Taylor (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Glyn Haynes (Is-gadeirydd)
- Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Jeff M Evans, Neville Evans, Kenneth Hughes, T LI Hughes MBE, John Ifan Jones, R LI Jones, Jackie Lewis, Dafydd Roberts
- Y Cynghorydd Nicola Roberts – Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd
- WRTH LAW:** Rheolwr Datblygu Cynllunio (RLJ),
Ymgynghorydd Cyfreithiol (BS),
Cynorthwyydd Cynllunio (CT),
Cynorthwy-ydd Cynllunio (DPS),
Swyddog Pwyllgor (MEH),
Cynorthwy-ydd Cymorth (Gwasanaethau Democrataidd) (Gwe-ddarlledu) (CH)
- YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Robin Williams
- HEFYD YN BRESENNOL:** Aelodau Lleol : Y Cynghorwyr Keith Roberts (ar gyfer cais 7.1); Arfon Wyn (ar gyfer cais 7.3); Non Dafydd a Dylan Rees (ar gyfer cais 12.1); Pip O'Neill (ar gyfer cais 12.3)

1 YMDDIHEURIADAU

Fel y nodwyd uchod.

2 DATGAN BUDDIANT

Bu i'r Cynghorydd Glyn Haynes ddatgan buddiant personol a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas â chais 12.2 a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais.

Bu i'r Cynghorydd Trefor LI Hughes ddatgan buddiant personol a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas â chais 12.2 a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais.

3 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf, 2025 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

4 YMWELIADAU SAFLE

Cadarnhawyd bod cofnodion yr Ymweliadau Safle a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf, 2025 yn gywir.

5 SIARADWYR CYHOEDDUS

Cafwyd Siaradwyr Cyhoeddus mewn perthynas â cheisiadau 7.1, 7.3 a 12.1.

6 MATERION A FYDD YN CAEL EU GOHIRIO

Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

7 CEISIADAU SY'N CODI

7.1 FPL/2025/97 – Cais llawn i ddymchwel yr annedd bresennol a chodi annedd yn ei lle yn Ponta Delgada, Ystâd Ravens Point, Bae Trearddur.

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ar gais Aelod Lleol. Yn ei gyfarfod ar 2 Gorffennaf, 2025 penderfynodd y pwyllgor ymweld â'r safle. Cynhaliwyd yr ymweliad ar 30 Gorffennaf, 2025.

Siaradwyr Cyhoeddus

Wrth wrthwynebu'r cynnig, dywedodd Mr Hayward Milton fod yr eiddo, Ponta Delgada, ar gornel allanol Ravens Point, wrth edrych o'r môr ac mewn lleoliad amlwg o ben gogleddol prif fae Bae Trearddur a'r holl ffordd trwy 240 gradd wrth ddod o gyfeiriad Rhoscolyn. Yn ystod yr ymweliad safle gwelwyd bod nifer o dai deulawr gerllaw. Fodd bynnag, datblygwyd y llain yma fel rhan o gynllun ehangach Ravenspoint, a ddyluniwyd gan y Pensaer llwyddiannus o Gymru a osododd amod bod yr holl anheddau'n rhai unllawr. Pwrpas y cyfyngiad a'r warchodaeth oedd sicrhau bod yr ystâd er budd pawb, i gadw siâp ac edrychiad naturiol yr arfordir, er budd y gymuned ehangach ac atal cynlluniau datblygu rhy fawr. Nid oes unrhyw beth wedi newid i gyfiawnhau y dylid diystyru'r gofyniad cynllunio hwn. Dywedodd fod rhai o'r tai wedi gosod ffenestri dormer yn eu to ac mai'r cais hwn fyddai'r cyntaf i fod yn ddatblygiad un deulawr. Mae drychiad cornel Ponta Delgada yn gwneud y datblygiad yn hynod sensitif. Mae gan y cais hwn gryn botensial i ail-ddiffinio ffiniau'r hyn sy'n dderbyniol a chaniatáu datblygiadau nad oes modd eu rheoli ac amharu ar fudd ehangach yr ystâd a cholli siâp y pentir. Efallai y bydd yr ymgeisydd yn cyflwyno'r eiddo presennol fel deulawr ond prin fod ffitiadau ystafell ymolchi a lle storio yn y llecyn yn y to, sydd ond yn bosibl mynd iddo trwy risiau allanol, yn ei wneud yn annedd deulawr. Mae'r ymgeisydd yn ei gymharu â'r eiddo deulawr 'The Lookout' sydd wedi'i leoli y tu ôl i safle'r cais, ond nid oedd y tŷ hwn wedi'i gynnwys yn y cyfyngiad cynllunio. Nododd nad oedd yr ymgeisydd wedi ymgynghori â phreswylwyr yr ystâd ynghylch y cynnig hwn. Mae'r cynnig yn groes i ofyniad Canllaw Dylunio Canllawiau Cynllunio yr Awdurdod Lleol. Nododd fod gwrthwynebiadau ysgrifenedig wedi'u cyflwyno gan nifer o breswylwyr ynghylch graddfa, màs, arwynebedd llawr ac effaith ormodol y datblygiad arfaethedig.

Wrth gefnogi'r cais, dywedodd Ms Sioned Rowlands, Asiant yr Ymgeisydd, fod safle'r cais wedi'i leoli o fewn ffin ddatblygu Bae Trearddur. Mae polisi cynllunio 7 o TAI 13 yn nodi nad oes rhaid i anheddau newydd fod o'r un raddfa â'r eiddo presennol. Er y bydd y datblygiad arfaethedig yn cynyddu'r arwynebedd, mae'r safle yn llain ddwbl, ac mae lle ar gyfer annedd fwy ar y safle. Nododd fod y

gwrthwynebiadau a gyflwynwyd gan yr eiddo cyfagos yn nodi mai dim ond annedd unllawr y dylid ei chodi ar yr ystâd hon ond mae anheddau deulawr gerllaw. Mae'r Swyddogion Cynllunio wedi cadarnhau, yn yr adroddiad ysgrifenedig, gan mai cais cynllunio newydd yw hwn, nid oes gan y cyfyngiad unllawr o'r caniatâd blaenorol unrhyw oblygiadau. Mae llawer o'r anheddau yn yr ardaloedd cyfagos yn gyfuniad o anheddau unllawr a deulawr ynghyd ag eiddo ar Ystâd Ravenspoint. At hyn, dywedodd fod dyluniad yr annedd arfaethedig o ansawdd uchel a fydd yn integreiddio i'r amgylchedd adeiledig. Rhannodd yr ymgeisydd gopiâu drafft o'r cynnig gyda 19 o drigolion yr ystâd yn gwahodd sylwadau ynglŷn â'r cais, fodd bynnag, ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio mai cynnig yw hwn ar gyfer dymchwel yr annedd bresennol a chodi annedd newydd. Cyfeiriodd at adroddiad y Swyddog o ran ystyriaethau polisi, lleoliad a dyluniad, yr effaith ar eiddo preswyl cyfagos, Priffyrdd a Pharcio ac Ecoleg, Bioamrywiaeth a'r AHNE. Gan fod y cynnig ar gyfer annedd newydd, y polisi cynllunio perthnasol yw TAI 13. Manylwyd ar feini prawf polisi cynllunio TAI 13 yn yr adroddiad ysgrifenedig. Cyfeiriodd ymhellach at y ffaith fod yr annedd bresennol yn eiddo ar wahân unllawr gyda lle yn y to ac mae wedi'i lleoli ger yr arfordir ar ymyl y clogwyn o fewn Ystâd Ravenspoint ac digon o le yn y llain. Cyfanswm arwynebedd llawr yr annedd bresennol yw tua 225m². Bydd gan yr annedd arfaethedig ôl troed mwy a bydd y cynnydd o ran hyd a lled fel y nodwyd yn yr adroddiad. Cydnabyddir bod amod a chyfyngiad unllawr wedi'i osod ar y caniatâd gwreiddiol ar gyfer yr ystâd yn y 1960au, fodd bynnag, gan fod hwn yn gais cynllunio newydd, nid oes gan yr amod unrhyw oblygiadau. Ar ben hynny, mae sawl eiddo deulawr eisoes yn yr ystâd, gan gynnwys yr eiddo a elwir yn 'The Lookout' yn union i'r dwyrain i safle'r cais a mwyafrif yr eiddo i'r de a'r de-ddwyrain ar draws yr hafn. Mae gan yr annedd newydd arwynebedd llawr o oddeutu 454m², sy'n cyfateb i gynnydd o 102% yn yr arwynebedd llawr. Mae digon o le yn safle'r cais i ddarparu ar gyfer annedd fwy. Nid oes gan yr Awdurdod Priffyrdd unrhyw wrthwynebiad oherwydd maint cwrtill yr eiddo gan fod ganddo ddigon o le i ddarparu ar gyfer gofynion parcio i gydymffurfio â pholisïau trafndiaeth y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio ymhellach fod safle'r cais mewn lleoliad arfordirol sensitif yn union gerllaw Ardal Gwarchodfa Arbennig Morwenoliaid Ynys Môn, Ardal Cadwraeth Arbennig Forol Gogledd Ynys Môn a safle bywyd gwyllt dynodedig. Bydd amod (07) yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno Cynllun Rheoli Asedau Cynaliadwy (CEMP) i sicrhau nad oes unrhyw niwed i'r safleoedd dynodedig yn ystod y gwaith adeiladu. Bydd yr holl wydr ar y drychiad gorllewinol a'r golau to yn cael eu gosod â ffilm atal llygredd golau Solartek 35 i atal golau rhag cael ei ryddhau yn yr ardal sensitif hon, tra bydd amod (08) yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno cynllun goleuo. Er mwyn gwella bioamrywiaeth, yn unol â pholisi AMG 5 a Deddf Amgylchedd Cymru (2016), bydd dau flwch adar a dau flwch ystlumod yn cael eu gosod ar yr annedd. Mae safle'r cais tua 390m i'r gogledd o'r AHNE. Mae Polisi 3.1 Cynllun Rheoli AHNE yn nodi y bydd yr holl gynigion datblygu o fewn a hyd at 2Km i ffiniau'r AHNE yn cael eu hasesu'n drylwyr i leihau datblygiadau amhriodol a allai niweidio rhinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE. Er bod yr annedd newydd yn fwy ac yn uwch na'r un bresennol, mae wedi'i chynllunio i ansawdd uchel a bydd yn integreiddio i gymeriad cymysg yr amgylchedd adeiledig. Er bod 15 llythyr yn gwrthwynebu'r cais – ac mae'r rhain

wedi cael sylw manwl yn yr adroddiad ysgrifenedig - ystyrir nad oes unrhyw gyfiawnhad dros wrthod y cais. Yr argymhelliad oedd cymeradwyo'r cais.

Dywedodd y Cynghorydd Keith Roberts, Aelod Lleol, fod y cynnig wedi codi pryderon ym mhentref Bae Trearddur gan fod nifer o geisiadau dros y blynyddoedd diwethaf wedi'u cyflwyno ar gyfer eiddo mawr o wahanol ddyluniadau. Cyfeiriodd at y ffaith fod Bae Trearddur yn ardal o fewn yr AHNE sydd angen ei gwarchod. Cyfeiriodd ymhellach at y ffaith ei bod yn aneglur i beth y bwriedir defnyddio'r eiddo. A fydd yr ymgeisydd yn rhentu'r eiddo neu'n ei ddefnyddio fel cartref gwyliau gan mai datblygwyr eiddo yw'r ymgeiswyr ac mae ganddynt sawl eiddo arall yn yr ardal. Nododd y gallai hyn gael effaith niweidiol ar drigolion eiddo gerllaw.

Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio fod annedd ar hyn o bryd ar y safle ac na fydd cynnydd yn nifer yr eiddo o amgylch yr AHNE. Nododd nad yw defnydd arfaethedig yr eiddo yn ystyriaeth gynllunio berthnasol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Neville Evans at y llythyrau sy'n gwrthwynebu'r cais. Cyfeiriodd at gais blaenorol a wrthodwyd ar yr ystâd ar gyfer estyniad deulawr oherwydd ei raddfa a'i fas ac am y byddai'n anghydnaws â'r anheddau presennol yn yr ardal. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio, gan fod amod ar yr ystâd, cyfyngir ar estyniadau i greu eiddo deulawr, fodd bynnag, gan fod hwn yn gais ar gyfer dymchwel yr eiddo, nid yw'r cyfyngiad yn berthnasol i adeilad newydd.

Cynigiodd y Cynghorydd Kenneth P Hughes y dylid cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog. Eiliodd y Cynghorydd Dafydd Roberts y cynnig i gymeradwyo'r cais.

Dywedodd y Cynghorydd Robert Ll Jones ei fod yn gwrthwynebu'r cais oherwydd bod datblygiadau tai mawr ar gynnydd ym Mae Trearddur a'i fod o'r farn y dylai eiddo fod o ddyluniad a maint tebyg. Cynigiodd y Cynghorydd Jones y dylid gwrthod y cais yn groes i argymhelliad y Swyddog. Ni chafodd ei gynnig ei eilio.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog, yn amodol ar yr amodau cynllunio o fewn yr adroddiad.

7.2 FPL/2023/181 – Cais llawn ar gyfer codi 6 uned breswyl ynghyd â gwaith cysylltiedig yn Neuadd y Sir, Lôn Glanhwfa, Llangefni

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio fod y cais wedi'i ddwyn gerbron y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ar 7 Mai, 2025 ac mai'r argymhelliad oedd ei wrthod gan fod yr ymgeisydd wedi methu â chwblhau cytundeb cyfreithiol Adran 106. Fodd bynnag, cyn y cyfarfod gofynnodd yr ymgeisydd am fwy o amser i drefnu cyllid i ddrafftio'r cytundeb Adran 106. Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi rhoi pedwar mis arall i'r ymgeisydd i roi cyfle iddo wneud trefniadau i ariannu'r cytundeb Adran 106. Nid oes gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol unrhyw ddewis arall ond argymhell bod y cais cynllunio'n cael ei wrthod oherwydd y diffyg cynnydd i gwblhau'r cytundeb Adran 106. Rhoddodd yr ymgeisydd fanylion ei Gyfreithiwr yr wythnos diwethaf ac mae wedi cadarnhau trwy e-bost wedyn nad yw'n gallu ariannu costau'r cytundeb Adran 106 gofynnol. Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio, yn unol â

pholisi cynllunio PCYFF 1 (Ffiniau Datblygu), y caniateir cynigion sydd y tu mewn i ffiniau datblygu os ydynt yn cydymffurfio â pholisïau a chynigion eraill y Cynllun, polisïau Cenedlaethol ac ystyriaethau cynllunio perthnasol eraill. Mae Ardal Pris Tai 'Llangefni' yn y Cynllun yn nodi bod 10% o dai fforddiadwy yn hyfyw. Gan y bydd cynnydd o 6 uned bydd rhaid i 0.6 o'r unedau newydd fod yn fforddiadwy. Bydd angen darparu cyfraniad ariannol o £50,000 tuag at dai fforddiadwy y cais. Cafodd y cais cynllunio ei gymeradwyo ym mis Gorffennaf 2024, yn amodol ar gytundeb Adran 106 tuag at y tai fforddiadwy a'r angen i reoli a chynnal y wal amddiffyn rhwng yr adeilad arfaethedig ac Afon Cefni. Ers i'r mater gael ei gymeradwyo, mae'r ymgeisydd wedi methu â sicrhau cyllid i fynd i'r afael â'r cytundeb Adran 106. Yr argymhelliad oedd gwrthod y cais am y rhesymau a roddwyd.

Cynigiodd y Cynghorydd Geraint Bebb, ac Aelod Lleol fod y cais yn cael ei wrthod yn unol ag argymhelliad y Swyddog. Eiliodd y Cynghorydd Jackie Lewis y cynnig i wrthod y cais.

Dywedodd y Cynghorydd Kenneth P Hughes fod y cais hwn wedi'i gymeradwyo ym mis Gorffennaf, 2024 a bod gan yr ymgeisydd 5 mlynedd i ddechrau datblygu'r safle. Nododd nad oes unrhyw bolisi sy'n datgan bod yn rhaid llofnodi cytundeb Adran 106 ar ddyddiad penodol ac mai mater o farn y Swyddog Cynllunio yw bod y datblygwr wedi cael digon o amser i gwblhau'r cytundeb Adran 106. Cynigiodd y Cynghorydd Hughes y dylid parhau i gymeradwyo'r cais. Eiliodd y Cynghorydd Jeff Evans y cynnig.

Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio fod y cais yn annerbyniol gan nad yw'r ymgeisydd wedi cwblhau cytundeb cyfreithiol Adran 106 a chyfraniad tuag at dai fforddiadwy. Er nad oes polisi sy'n pennu amserlen ar gyfer cytuno ynghylch cytundeb Adran 106, mae caniatáu cyfnod amhenodol i ariannu'r cytundeb Adran 106 yn anghynaliadwy. Mae'r cais yn dderbyniol yn amodol ar lofnodi cytundeb Adran 106.

Dywedodd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol fod gan Awdurdodau Cynllunio Lleol derfyn amser statudol i ddelio â cheisiadau cynllunio a phan nad yw cytundeb Adran 106 wedi'i gwblhau, fod yr Awdurdod o fewn eu hawliau i wrthod y cais. Nododd nad oes unrhyw obaith ar hyn o bryd bod y cyllid angenrheidiol ar gael i'r ymgeisydd allu cwblhau'r cytundeb Adran 106. Gall yr ymgeisydd gyflwyno cais pellach os yw'r cyllid angenrheidiol ar gael i lofnodi'r cytundeb Adran 106.

PENDERFYNWYD gwrthod y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog.

7.3 OP/2025/3 – Cais amlinellol gyda phob mater wedi'i gadw'n ôl i godi annedd ar dir ger Ty'n Llain, Malltraeth.

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ar gais Aelod Lleol gan ei fod o'r farn bod y safle gryn bellter o Gob Malltraeth a bod sawl eiddo arall o'i amgylch ac nid oes unrhyw dystiolaeth o lifogydd blaenorol ar y safle. Yn ei

gyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf, 2025, argymhellodd y Pwyllgor ymweliad safle, a chynhaliwyd hyn wedyn ar 30 Gorffennaf, 2025.

Siaradwr Cyhoeddus

Wrth gefnogi'r cais, dywedodd Mr Phil Jones ei fod yn Ymgynghorydd Rheoli Draenio a Risg Llifogydd, a'i fod yn llunio Asesiadau o Ganlyniadau Llifogydd ar gyfer datblygiadau o fewn Ardaloedd Risg Llifogydd sy'n dangos lle gellir rheoli risg llifogydd. Cyfeiriodd at y cais a nododd fod yr annedd arfaethedig rhwng eiddo eraill a byddai'n ddatblygiad mewnlenwi. Roedd o'r farn nad oes unrhyw resymau pam y dylid gwrthod y cynnig hwn. Mae'r safle wedi bod yn destun dau gais blaenorol. Cyflwynwyd y cais cyntaf yn 2006 a oedd yn cynnwys Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd ac fe'i cymeradwywyd heb unrhyw wrthwynebiadau gan Asiantaeth yr Amgylchedd, sef yr hen Awdurdod Risg Llifogydd. Cyflwynwyd yr ail gais yn 2019 a chafodd ei gymeradwyo, nid oedd gan Cyfoeth Naturiol Cymru unrhyw wrthwynebiad o bwys i'r cynnig. Fodd bynnag, ni weithredwyd ar yr un o'r ddau gais, ac mae'r caniatâd wedi dod i ben. Cyfeiriodd Mr Jones at y cais presennol ac at y ffaith bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwrthwynebu'r cynnig gan eu bod o'r farn bod safle'r cais mewn parth llifogydd, fodd bynnag, mae'r safle ar lethr fel y gwelodd yr Aelodau pan fuont ar yr Ymweliad Safle yn ddiweddar. Cododd Cyfoeth Naturiol Cymru bryderon hefyd ynglŷn â'r mynediad i'r safle; mae gan yr ymgeisydd fynedfa yng nghefn y safle pe bai llifogydd ger y safle. Wedi hynny, gofynnodd Cyfoeth Naturiol Cymru am Ddadansoddiad Torri'r Glannau o ran cloddiau atal llifogydd Afon Cefni; ystyriwyd bod hyn yn deg o ran y datblygiad. Nododd y byddai angen i ochr ogleddol Cors Malltraeth fod o dan ddŵr cyn iddo fod yn agos i safle'r datblygiad arfaethedig.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio fod safle'r cais wedi'i leoli o fewn parth llifogydd C2 o'r Map Cyngor Datblygu sydd yn y TAN 15 (2004) blaenorol a'i fod o fewn Parth Llifogydd 3 (Moroedd) yn y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio sydd yn TAN 15 a ddiweddarwyd ym mis Ebrill 2025. Fodd bynnag, mae'r Datganiad Ysgrifenedig Gweinidogol dyddiedig 31 Mawrth, 2025, a oedd yn cyd-fynd â'r TAN newydd a gyhoeddwyd, yn cadarnhau y bydd cyfnod pontio ar gyfer ei weithredu. Yn benodol, bydd ceisiadau cynllunio a gyflwynwyd ac a gofrestrwyd cyn cyhoeddi'r TAN newydd fel y cais hwn, yn parhau i gael eu hasesu yn erbyn y fersiwn flaenorol. Mae'r safle mewn ardal breswyl gydag eiddo cyfagos yn y cyffiniau, Tyn Llain i'r de-orllewin a Llys y Wennol i'r gogledd-ddwyrain a'r eiddo ar David Street i'r gogledd-orllewin. Mae'r annedd arfaethedig yn cael ei hystyried yn annedd ar raddfa briodol a fyddai'n cydymffurfio â pholisi cynllunio PCYFF 3. Er bod caniatâd cynllunio wedi'i roi o'r blaen ar gyfer y safle, gwrthodwyd dau gais diweddar ar y safle ar sail llifogydd, gyda Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwrthwynebu lleoliad y safle am ei fod o fewn parth llifogydd C2. Ysgrifennodd yr Awdurdod Cynllunio at Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Ebrill 2025 yn gofyn iddynt adolygu'r Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd a gyflwynwyd i gefnogi'r cais gan fod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn fodlon â'r cais ar bob sail ac eithrio llifogydd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwrthwynebu'r cais gan nad yw'r Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd yn dangos y gellir rheoli risgiau a chanlyniadau llifogydd i lefel dderbyniol yn unol â TAN 15. Mae'n methu â dangos bod y safle cyfan wedi'i ddylunio i fod yn gwbl rydd o lifogydd pe byddai digwyddiad morol 0.5% (1 mewn 200 mlynedd) yn ogystal â sgil

effaith newid hinsawdd. Mae'r asesiad llifogydd hefyd yn cael ei ystyried yn hen gan iddo gael ei ysgrifennu yn 2006 gyda dim ond atodiad diweddar. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru bryderon sylweddol ynglŷn â'r fynedfa i gerbydau, a allai gael ei heffeithio'n sylweddol mewn achos o lifogydd, a'r diffyg gwybodaeth ynglŷn â'r llwybr i gerddwyr i'r gogledd o'r safle. Rhoddwyd cyfle i'r ymgeisydd ddiwygio'r Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd yn sgil sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru. Fodd bynnag ni dderbyniwyd unrhyw wybodaeth bellach ac o'r herwydd mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwrthwynebu'r datblygiad ar sail llifogydd. Mae'r cais yn cynnwys codi annedd ar wahân deulawr, gan fod y safle o fewn parth llifogydd C2, mae'r datblygiad arfaethedig yn cael ei ddosbarthu fel datblygiad agored iawn i niwed, sy'n groes i bolisi cynllunio CYFF 2, polisi strategol PS6 a Nodyn Cyngor Technegol 15. Er y gellid datrys materion eraill fel effaith ar gymdogion, priffyrdd ac ecoleg yn ystod cais materion a gadwyd yn ôl, ni ellir diystyru'r ffaith bod y lleoliad o fewn parth llifogydd C2 a'i fod yn mynd yn groes i bolisiâu cynllunio cenedlaethol a lleol. Cyfeiriodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio at benderfyniad apêl yng Nghyngor Gwynedd yn ddiweddar mewn perthynas â chais mewn parth llifogydd C2. Dywedodd yr Arolygydd Cynllunio na ddylid cymeradwyo ceisiadau o fewn parth llifogydd C2 o dan bolisi cynllunio TAN 15 (2004). Yr argymhelliad oedd gwrthod y cais gan fod y cynnig yn ddatblygiad sy'n agored iawn i niwed mewn parth llifogydd C2.

Dywedodd y Cynghorydd Arfon Wyn, Aelod Lleol fod y cais gan berson lleol a bod y safle wedi'i leoli wrth ymyl eiddo mawr newydd; byddai'r datblygiad arfaethedig hwn yn achos o fewnlenwi. Nododd fod nifer o dai eraill yn llawer nes at Gors Malltraeth a bod angen cysondeb wrth ystyried y cais hwn. Nid oes hanes o lifogydd yn y cyffiniau gan fod y safle 600 troedfedd o'r afon. At hyn, dywedodd fod y cais wedi cael ei gymeradwyo sawl blwyddyn yn ôl a'r unig reswm dros yr argymhelliad i'w wrthod yw'r sylwadau a dderbyniwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Nododd fod gwrthwynebiadau Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cael eu gwrthod pan roddwyd caniatâd ar gyfer y caban gwyliau ym mhentref Dwyrân yn ddiweddar.

Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio fod yr eiddo cyfagos wedi cael caniatâd ym mis Mai 2003 a bod polisiâu cynllunio wedi cael eu diwygio ers i'r eiddo hwnnw gael ei adeiladu. Mae polisiâu cynllunio cenedlaethol mewn perthynas â newid hinsawdd wedi'u cryfhau ac mae'r Nodyn Cyngor Technegol diweddaraf wedi rhoi pwyslais ar newid hinsawdd a risgiau llifogydd. Ymatebodd i'r sylwadau ynglŷn â'r caban gwyliau yn Nhaldwrst, Dwyrân a nododd nad oedd y safle na'r fynedfa o fewn ardal parth llifogydd ac na ddylid ei gymharu â'r cais hwn.

Dywedodd y Cynghorydd John Ifan Jones, ac Aelod Lleol fod Cors Malltraeth wedi bodoli ers dros 200 mlynedd; mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn monitro ac yn gwneud gwaith cynnal a chadw yn rheolaidd. Nododd fod llifddorau'n rheoli'r llif o'r môr, a dywedodd fod llifogydd llanw yn berthnasol i'r lleoliad hwn ym Malltraeth; mae grym yr afon yn cael ei reoli ac mae cloddiau o boptu'r afon. Nid yw trigolion sy'n byw ger yr afon wedi profi unrhyw lifogydd ers degawdau ac nid ydynt yn cael unrhyw broblemau i gael yswiriant cartref heb gyfyngiadau o ran potensial llifogydd. Dywedodd fod safle'r cais hwn sydd 300 metr i fyny llethr rhwng dau dŷ arall. Dywedodd y Cynghorydd Jones ymhellach fod y cynnig yn cydymffurfio â pholisi cynllunio TAI 4, nid yw'r adran ecoleg wedi codi pryderon, mae dyluniad yr annedd arfaethedig yn dderbyniol, mae dwy fynedfa i'r safle ac nid oes unrhyw

wrthwynebiad gan anheddau cyfagos. Dywedodd ei fod yn gefnogol i'r cais a chynigiodd fod y cais yn cael ei gymeradwyo yn groes i argymhelliad y Swyddog.

Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio, er ei fod yn derbyn bod safle y cais yn un sy'n mewnlenni ac nad oes hanes o lifogydd yn yr ardal, fodd bynnag, mae'n rhaid cadw at ganllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r safle o fewn map parth llifogydd C2 ac mae'r ardal gyfan o fewn mapiau parth llifogydd C3. Nododd fod y TAN 15 a ddiweddarwyd ym mis Ebrill 2025 yn datgan na ddylid cymeradwyo unrhyw ddatblygiadau preswyl newydd os oes risg o lifogydd.

Dywedodd y Cynghorydd Kenneth P Hughes ei fod yn gefnogol i'r cais gan mai'r rhesymau dros ei wrthod oedd y ffaith bod y cais o fewn mapiau parth llifogydd C2 a C3. Roedd yn rhagweld y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn herio unrhyw benderfyniad i gymeradwyo'r cais tra eu bod wedi nodi bod llifddorau'n amddiffyn yr ardal. Dywedodd ymhellach fod datblygiadau yn ardal y Fali lle mae risg o lifogydd ond heb unrhyw ymyrraeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Eiliodd y Cynghorydd Kenneth P Hughes y cynnig i'w gymeradwyo.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio, pe bai'r cais yn cael ei gymeradwyo yn groes i argymhelliad y Swyddog, bod dyletswydd i gyfeirio'r penderfyniad at Weinidogion Cymru i wneud y penderfyniad ynglŷn â'r cais. Er bod y cais wedi'i gyflwyno cyn y TAN 15 a ddiweddarwyd ym mis Ebrill 2025, bydd diweddariad yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf os ystyrir y gellir penderfynu ynglŷn â'r cais o dan y TAN 15 blaenorol.

Dywedodd y Cynghorydd Robert Ll Jones, er ei fod yn cydymdeimlo â'r ymgeisydd ynglŷn â'r cais hwn, roedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gwrthwynebu'r cais oherwydd bod y safle mewn parth llifogydd C2. Nododd fod hwn yn safle agored iawn i niwed a phwysleisiodd y problemau newid hinsawdd a fydd yn wynebu cenedlaethau'r dyfodol. Cynigiodd y Cynghorydd Jones y dylid gwrthod y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog. Ailadroddodd y Cynghorydd Jeff Evans y pryderon ynglŷn â newid hinsawdd a'r gwrthwynebiad gan Cyfoeth Naturiol Cymru i'r cais. Eiliodd y Cynghorydd Evans y cynnig i wrthod y cais.

Dywedodd y Cynghorydd Dafydd Roberts fod Cob Malltraeth yn cael ei warchod a'i chynnal gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Roedd o'r farn bod y trigolion lleol yn ymwybodol o unrhyw risgiau llifogydd yn yr ardal a'u bod hyderus bod yr amddiffyniad angenrheidiol rhag risg llifogydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei le.

Yn dilyn y bleidlais o 7 o blaid cymeradwyo'r cais a 3 yn erbyn :-

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais, yn groes i argymhelliad y Swyddog gan ei fod yn cael ei ystyried nad oedd safle'r cais yn debygol o ddioddef llifogydd.

(Yn unol â gofynion y Cyfansoddiad, bydd y cais yn cael ei ohirio i'r cyfarfod nesaf yn awtomatig er mwyn caniatáu i Swyddogion ymateb i'r rhesymau a roddwyd dros wrthod y cais).

8 CEISIADAU ECONOMAIDD

Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

9 CEISIADAU AM DŶ FFORDDIADWY

Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

10 CEISIADAU'N GWYRO

Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

11 CYNIGION DATBLYGU A GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION

Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

12 GWEDDILL Y CEISIADAU

12.1 VAR/2025/16 – Gwneir y cais o dan Adran 73A ar gyfer dileu amod (01) (caniatâd dros dro) ac amrywio amod (03) (Oriau Defnydd) o ganiatâd cynllunio cyfeirnod VAR/2022/37) (codi caban symudol ar gyfer busnes arlwy) er mwyn diwygio'r oriau defnydd ym Marian, Talwrn

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ar gais aelodau lleol.

Siaradwr Cyhoeddus

Wrth gefnogi ei gais, dywedodd Dr. Ieuan Jones, fod y caban symudol yn Uned Containex sydd wedi'i gosod ar sylfaen goncrit ar y lôn sy'n arwain at ei eiddo Marian, Talwrn. Adeiladwyd y sylfaen goncrit gan y perchennog blaenorol ar gyfer busnes magu ieir ac roedd dŵr a thrydan gerllaw ac fe'i hailgysylltwyd heb drafferth. Cais yw hwn i addasu'r caniatâd cynllunio yn strwythur parhaol ar gyfer uned storio a chegin paratoi bwyd. Dywedodd fod y caban ar gyfer ei ferch sydd wedi sefydlu busnes llwyddiannus fel cogydd preifat. Cyfeiriodd at broblemau iechyd ei ferch a'i bod yn dymuno parhau â'i busnes.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at lythyr yn gwrthwynebu'r cais, gan yr eiddo cyfagos, a e-bostiwyd at Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio fod y Cynghorwyr Non Dafydd a Dylan Rees wedi datgan y byddent yn tynnu'n ôl eu cais y dylid cyfeirio'r cais at y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion pe bai'r argymhelliad yn cael ei gymeradwyo. Ymddiheurodd i'r Aelodau Lleol a'r ymgeisydd gan fod camgymeriad gweinyddol wedi digwydd, a chyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor i'w ystyried. Dywedodd fod y cais wedi'i gymeradwyo i ddechrau ar gyfer codi caban symudol ar gyfer busnes arlwy ar 16 Rhagfyr, 2020 am gyfnod dros dro o 5 mlynedd. Diwygiwyd amod (03) y caniatâd sy'n ymwneud â'r oriau y caniateir defnyddio'r caban symudol ym mis Gorffennaf 2022 o dan gais Adran 73A. Cais yw hwn i ddileu'r amod cyfnod dros dro (01) i ganiatáu defnydd parhaol o'r caban symudol ac amrywio amod (03) i ddiwygio'r oriau defnydd a ganiateir ymhellach. Gosodwyd Amod (01) oherwydd pryderon y gallai'r cynnig achosi niwsans a thrwy hynny fod yn niweidiol i amwynder

eiddo cyfagos er mwyn galluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol i ailystyried y sefyllfa ar ôl 5 mlynedd. Bydd y cyfnod dros dro yn dod i ben ar 16 Rhagfyr, 2025. Er bod sylwadau wedi'u derbyn yn gwrthwynebu'r cais, nid oes unrhyw bryderon wedi'u codi mewn perthynas â'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r busnes. Mae maen prawf 4 polisi cynllunio PS 13 yn cefnogi ffyniant economaidd a chynaliadwyedd cymunedau gwledig drwy hwyluso twf mentrau gwledig ar raddfa briodol, ehangu busnesau presennol ac arallgyfeirio drwy gefnogi ymdrechion i ailddefnyddio adeiladau presennol, datblygu unedau 'lle gwneir gwaith', gweithio gartref, a thrwy hybu'r defnydd o safleoedd ac adeiladau mewn lleoliadau hygyrch priodol sy'n gyson â Strategaeth Ofodol y Cynllun ac yn unol â Pholisïau Strategol PS5 a PS6. Ystyrir bod y cynnig yn cyd-fynd â nodau ac amcanion y polisïau gan ei fod yn sicrhau cynaliadwyedd y gymuned wledig. Ystyrir bod y cynnig o faint priodol o ystyried ei leoliad. Ni fu unrhyw newid mewn polisi ers i'r caniatâd gael ei roi yn wreiddiol, felly, mae egwyddor y datblygiad yn parhau i fod yn dderbyniol yn unol â pholisi cynllunio CYF6. Mae Polisi Cynllunio PCYFF 2 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn nodi y bydd cynigion yn cael eu cefnogi ar yr amod nad ydynt yn cael effaith negyddol ar amwynder preswyl eiddo cyfagos. Mae'r cymydog agosaf dros 35m i ffwrdd o'r cynnig, sy'n cael ei ystyried yn bellter digonol, sy'n fwy na'r holl isafswm pellteroedd a argymhellir yn y Canllawiau Atodol a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod. Bydd y caban symudol yn cael ei ddefnyddio gan ferch yr ymgeisydd yn unig, fel unig fasnachwr ar gyfer paratoi bwyd. Bydd hyn yn arwain at draffig a gwastraff cyfyngedig o ystyried graddfa fach y busnes. Ar ben hynny, ni ystyriwyd y byddai niwsans arogl i'r fath raddau a fyddai'n cyfiawnhau gwrthod y cais gan nad yw'r eiddo cyfagos yn llwybr y prif wynt.

Cyfeiriodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio at y ffaith bod y cais hefyd yn ceisio amrywio Amod (03) o'r caniatâd i ddiwygio'r oriau defnydd a ganiateir er mwyn caniatáu defnydd llawn o'r caban rhwng 8.00am a 9.30pm. Mae'r amod presennol yn cyfyngu ar ddefnyddio'r caban symudol i'r cyfnod rhwng 8.00am a 6.00pm, ac eithrio at ddibenion danfon a chasglu na chaniateir cyn 7.00am neu ar ôl 11.00pm. O ystyried graddfa fach a natur y busnes, a weithredir gan un person, nid ystyrir bod defnyddio'r caban symudol yn ystod yr oriau diwygiedig yn afresymol neu'n debygol o achosi effeithiau annerbyniol ar amwynderau eiddo cyfagos. Yr argymhelliad oedd cymeradwyo'r cais.

Roedd y Cynghorwyr Non Dafydd a Dylan Rees yn cefnogi'r cais a nododd fod y gymuned leol a Chyngor Cymuned Llanddyfnan yn gefnogol i'r cais. Dywedon nhw ymhellach y dylai merch yr ymgeisydd gael ei chefnogi i barhau â'i menter busnes bwyd.

Cynigiodd y Cynghorydd John Ifan Jones y dylid cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swydddog. Eiliodd y Cynghorydd Jackie Lewis y cynnig i'w gymeradwyo.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swydddog, yn amodol ar yr amodau cynllunio o fewn yr adroddiad.

12.2 OP/2025/1 – Cais amlinellol ar gyfer codi 9 annedd fforddiadwy sy'n cynnwys manylion llawn y fynedfa, edrychiad, gosodiad a graddfa'r tir ger Ffordd Llanfawr, Caergybi

Bu i'r Cynghorydd Glyn Haynes ddatgan buddiant personol a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas â'r cais gan ei fod yn Aelod o Gyngor Tref Caergybi sef yr ymgeisydd. Gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais.

Bu i'r Cynghorydd Trefor LI Hughes ddatgan buddiant personol a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas â'r cais gan ei fod yn Aelod o Gyngor Tref Caergybi sef yr ymgeisydd. Gadawodd y Cynghorydd Hughes y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais.

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ar gais Aelod Lleol.

Cynigiodd y Cynghorydd Jeff Evans, ac Aelod Lleol, y dylid cynnal ymweliad safle oherwydd pryderon ynghylch mwy o draffig, draenio a materion ecolegol. Eiliodd y Cynghorydd Neville Evans y cynnig i ymweld â'r safle.

PENDERFYNWYD cynnal ymweliad safle yn unol â chais yr Aelod Lleol.

12.3 FPL/2025/66 - Cais llawn ar gyfer newid defnydd cyn fwyty (Dosbarth Defnydd A3) i fod yn hwb cymunedol defnydd cymysg (Dosbarthiadau Defnydd D1 a D2 ym Mandarin Royale, Ffordd Fictoria, Caergybi

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion gan mai'r Cynghorydd Pip O'Neill yw Cadeirydd Pwyllgor Hwb Cybi.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio fod y safle wedi'i leoli yn nhref Caergybi a'i ffin ddatblygu gysylltiedig, ar ochr y ffordd ger Ffordd Victoria. Mae'r safle wedi'i leoli o fewn ardal Gadwraeth Ganolog Caergybi ac mae hefyd o fewn parth risg llifogydd 3 (Afonydd a Moroedd) a Pharth 2 (cyrsiau dŵr bach a dŵr wyneb). Cais yw hwn ar gyfer newid defnydd y safle o gyfleuster bwyd poeth A3 i hwb cymunedol defnydd cymysg o dan ddosbarthiadau defnydd D1 a D2. Bydd y cynllun yn darparu hwb ieuenctid/ystafell gyfarfod/man cyfarfod ar y llawr cyntaf, ac ar y llawr gwaelod darperir cegin a pheiriant efelychu golff. Nid oes unrhyw newidiadau allanol wedi'u cynnig dan y cais, ac felly, cais ar gyfer addasiadau mewnol a newid materol i ddefnydd yr adeilad yw hwn. Cyfeiriodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio at brif ystyriaeth y cynllun o ran egwyddor y datblygiad, risg llifogydd, effaith ar amwynder preswyl, ecoleg a phriffyrdd fel y nodwyd yn adroddiad y Swyddog. Nododd fod yr Uned Polisi Cynllunio wedi cadarnhau y dylid ystyried y newid defnydd o dan bolisi cynllunio ISA 2 ac mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn fodlon bod egwyddor y newid defnydd yn dderbyniol ac yn unol ag egwyddorion polisi cynllunio ISA 2. Cyfeiriodd ymhellach at y ffaith bod y cynllun wedi'i gyflwyno cyn mabwysiadu'r polisi TAN 5 a ddiweddarwyd, felly bydd y cais yn cael ei ystyried dan y Mapiau Cyngor Datblygu a pholisi TAN 5 a ddisodlwyd, yn hytrach na'r Mapiau Llifogydd Newydd ar gyfer Cynllunio. Mae'r safle o fewn parth llifogydd C2 ac mae'n cael ei ystyried yn ddatblygiad agored iawn i niwed fel y nodir o dan y TAN 15 a ddiweddarwyd, fodd bynnag, mae gan y safle ddefnydd cyfreithlon presennol fel bwyty ac felly ni ystyrir y byddai'n effeithio ar y safle. Dywedodd ymhellach nad oes unrhyw bryderon wedi cael eu derbyn gan yr Awdurdod Priffyrdd mewn perthynas â'r cynllun oherwydd bod digon o le parcio ar gael yng nghyffiniau'r safle

a gan fod y lleoliad yn gynaliadwy o ran mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus. Yr argymhelliad oedd cymeradwyo'r cais.

Dywedodd y Cynghorydd Pip O'Neill, Aelod Lleol, y dylid croesawu'r cais yn nhref Caergybi gan y bydd yn ganolfan aml-ddefnydd i bobl ifanc a gall y gymuned gyfan elwa o ganolfan gymunedol o'r fath.

Cynigiodd y Cynghorydd Jeff Evans y dylid cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog. Eiliodd y Cynghorydd Roberts Ll Jones y cynnig i'w gymeradwyo.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog, yn amodol ar yr amodau cynllunio o fewn yr adroddiad.

13

MATERION ERAILL

Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

**CYNGHORYDD KEN TAYLOR
CADEIRYDD**

YMWELIADAU SAFLE CYNLLUNIO

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Medi, 2025

YN BRESENNOL:	Cynghorydd Ken Taylor (Cadeirydd) Cynghorydd Glyn Haynes (Is-gadeirydd) Cynghorwyr Jeff Evans, Neville Evans, Kenneth P Hughes, John Ifan Jones.
WRTH LAW:	Rheolwr Datblygu Cynllunio (RLJ), Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu (CR), Peirianydd Grŵp Rheoli Datblygu a Rheoli Traffic (AR).
YMDDIHEURIADA U:	Cynghorwyr Geraint Bebb, Trefor LI Hughes MBE, Robert LI Jones, Jackie Lewis, Robin Williams
HEFYD YN BRESENNOL:	Aelod Lleol : Cynghorydd Pip O'Neill

1. OP/2025/1 - Cais amlinellol ar gyfer codi 9 annedd fforddiadwy sy'n cynnwys manylion llawn y fynedfa, edrychiad, gosodiad a graddfa'r tir ger Ffordd Llanfawr, Caergybi

Cyflwynodd y Rheolwr Cynllunio y cais i aelodau'r Pwyllgor Cynllunio. O'r safle cafwyd cyfle i edrych ar safle'r cais. Mae'r aelodau bellach yn gyfarwydd â'r safle a'r hyn sydd o'i amgylch.

**CYNGHORYDD KEN TAYLOR
CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

Pwyllgor Cynllunio: 01/10/2025


7.1

Rhif y Cais: OP/2025/3

Ymgeisydd: Mr D Jones

Bwriad: Cais amlinellol ar gyfer codi annedd gyda'r holl faterion wedi eu cadw'n ôl ar dir ger

Lleoliad: Tyn Llain, Malltraeth



Adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (Owain Rowlands)

Argymhelliad: Gwrthod

Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor

Mae'r cais hwn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion gan ei fod wedi cael ei alw i mewn gan y Cynghorydd Arfon Wyn. Mae'n cefnogi'r cais gan fod Cob Malltraeth gryn bellter i ffwrdd, mae sawl eiddo arall o amgylch y safle ac nid oes hanes o lifogydd blaenorol ar y safle.

Yn y pwyllgor cynllunio a gynhaliwyd ar yr 2ail o Orffennaf 2025, argymhellodd yr aelodau y dylid cynnal ymweliad safle. Cynhaliwyd ymweliad safle ar y 30ain o Orffennaf. Mae'r aelodau bellach yn ymwybodol o'r safle a'i osodiad.

Yng nghyfarfod y pwyllgor cynllunio a gynhaliwyd ar y 3ydd o Fedi 2025 penderfynodd yr aelodau ganiatáu'r cais yn groes i argymhelliad y swyddog. Mae'r rheswm a gofnodwyd fel a ganlyn:

i. Nid oes hanes o lifogydd yn ardal safle'r cais ac mae wedi'i leoli rhwng dau eiddo preswyl. Mae'r safle mewn parth llifogydd lle mae risg o lifogydd o'r môr, ond mae gan Malltraeth fesurau atal llifogydd sy'n cael eu cynnal gan CNC.

O dan amodau o'r fath mae paragraff 4.6.12.1 o gyfansoddiad y Cyngor yn nodi: "Pan fo'r Pwyllgor yn penderfynu naill ai cymeradwyo neu wrthod datblygiad arfaethedig yn groes i argymhelliad swyddog, bydd yr eitem yn cael ei gohirio hyd y cyfarfod dilynol fel bod cyfle i'r swyddogion gyflwyno adroddiad pellach ar y mater. Rhaid i'r Pwyllgor nodi'r rhesymau dros ddymuno penderfynu yn erbyn argymhelliad y swyddog. Dylai aelodau'r Pwyllgor lynu wrth y Rheolau hyn wrth wneud penderfyniadau cynllunio a rhoi ystyriaeth ddyladwy i arweiniad ar bolisi gan swyddogion cynllunio a phleidleisio yn erbyn eu hargymhellion dim ond yn yr achosion hynny lle mae modd nodi rhesymau cynllunio gwirioneddol ac o bwys. Cedwir cofnod manwl o resymau'r Pwyllgor gan osod copi ar ffeil y cais. Pan fo penderfyniad yn cael ei wneud ar fater yn groes i'r argymhelliad, gall hynny arwain at gostau apêl a bydd y Pwyllgor yn cofnodi'r bleidlais wrth benderfynu ar y cais waeth beth fo gofynion paragraff 4.1.18.5 y Cyfansoddiad."

Mae paragraff 4.6.12.2 yn nodi; "Yn adroddiad pellach y swyddog, ceir manylion am y rhesymau a gyflwynwyd gan yr aelodau, nodir a ydyw'r rhesymau hynny, yn eu barn nhw, yn faterion cynllunio gwirioneddol ac o bwys a thrafodir y materion defnydd tir a godwyd."

Mae'r adroddiad hwn felly'n ystyried y materion hyn.

1. Ymateb i'r rhesymau a roddwyd dros gymeradwyo'r cais

i. Nid oes hanes o lifogydd ar safle'r cais ac mae wedi'i leoli rhwng dau eiddo preswyl. Mae'r safle mewn parth llifogydd lle mae risg o lifogydd o'r môr, ond mae gan Falltraeth fesurau atal llifogydd sy'n cael eu cynnal gan CNC.

Mae safle'r cais wedi'i leoli'n bennaf mewn Parth Llifogydd C2 ar y Map Cyngor Datblygu, at ddibenion Nodyn Cyngor Technegol 15 (2004). Mae safle cyfan y cais hefyd o fewn Parth Llifogydd 3, Moroedd, ar y Mapiau Llifogydd ar gyfer Cynllunio mwy diweddar y cyfeirir atynt yn y Nodyn Cyngor Technegol 15 mwyaf diweddar (2025).

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fersiwn diwygiedig o Nodyn Cyngor Technegol 15 tra'r oedd y cais hwn yn cael ei ystyried. Mae'r ddogfen newydd yn cadarnhau y dylid ei ddarllen ochr yn ochr â Pholisi Cynllunio Cymru a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru a'i fod yn disodli Nodyn Cyngor Technegol 14 a'r Nodyn Cyngor Technegol 15 blaenorol. Fodd bynnag, mae Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig ar 31 Mawrth 2025, a gyhoeddwyd gyda'r Nodyn Cyngor Technegol newydd, yn cadarnhau y bydd cyfnod trosiannol wrth ei gyflwyno. Yn benodol, bydd ceisiadau cynllunio a gafodd eu cyflwyno a'u cofrestru cyn cyhoeddi'r Nodyn Cyngor Technegol newydd, megis yr un hwn, yn parhau i gael eu hasesu yn erbyn y fersiwn blaenorol.

Mae Parth Llifogydd C2 yn cael ei ddiffinio fel ardaloedd o orlifdir lle nad oes isadeiledd sylweddol i amddiffyn rhag llifogydd ac mae Nodyn Cyngor Technegol 15 (2004) yn datgan yn glir na ddylid caniatáu 'datblygiad bregus iawn', sy'n cynnwys pob adeilad preswyl, yn y parthau hyn. Mae'r egwyddor hon yn hynod o bwysig o ystyried newid hinsawdd, ac mae Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 12) yn nodi ei fod yn debygol o gynyddu'r risg o lifogydd gan y bydd lefel y môr yn codi. Mae Polisi Cynllunio Cymru hefyd yn cynghori y dylai awdurdodau cynllunio fabwysiadu dull rhagofalus o fynd ati'n gadarnhaol i osgoi datblygu mewn ardaloedd sy'n wynebu llifogydd o'r môr neu o afonydd. Adlewyrchir yr egwyddorion hyn hefyd ym mholisi PS 6 yn y Cynllun Datblygu Lleol sydd, ymysg pethau eraill, yn ceisio sicrhau nad yw datblygiadau'n cael eu lleoli mewn ardaloedd lle mae risg o lifogydd, er mwyn addasu i effeithiau newid hinsawdd.

Mae paragraff 6.2 yn Nodyn Cyngor Technegol 15 yn nodi y dylid cyfeirio pob datblygiad newydd oddi wrth barth C a thuag at dir addas ym mharth A, neu fel arall i barth B, lle bydd llifogydd afonol neu arfordirol yn llai o broblem. Ym mharth C bydd y profion a amlinellir yn adrannau 6 a 7 yn berthnasol, gan gydnabod serch hynny na ddylid caniatáu datblygiad hynod fregus a gwasanaethau brys ym mharth C2.

Mae datblygiadau hynod fregus yn golygu safleoedd preswyl, adeiladau cyhoeddus, datblygiadau diwydiannol arbennig o fregus a safleoedd gwaredu gwastraff. Mae paragraff 7.4 yn Nodyn Cyngor Technegol 15 yn datgan bod rhaid gwneud astudiaeth gynhwysfawr o lifogydd cyn penderfynu a all datblygiad fynd yn ei flaen. Dylai hyn edrych ar beth sy'n achosi'r llifogydd a sut fyddai'r llifogydd hynny yn effeithio ar y datblygiad. Rhaid i'r astudiaeth fod yn briodol ar gyfer maint a graddfa'r datblygiad a gynigir.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n gwrthwynebu'r cais gan nad yw'r Asesiad Canlyniadau Llifogydd yn dangos y gellir rheoli risgiau a chanlyniadau llifogydd i lefel dderbyniol, yn unol â Nodyn Cyngor Technegol 15. Mae'n methu â dangos bod y safle cyfan wedi'i ddylunio i fod yn gwbl rydd o lifogydd pe byddai digwyddiad morol 0.5% (1 mewn 200 mlynedd) yn ogystal â sgil effaith newid hinsawdd. Mae'r asesiad llifogydd hefyd wedi dyddio gan ei fod wedi cael ei ysgrifennu 19 mlynedd yn ôl gyda dim ond un adendwm diweddar yn unig. Mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru bryderon sylweddol ynglŷn â'r fynedfa i gerbydau i'r safle, a allai gael ei heffeithio'n sylweddol mewn achos o lifogydd, a'r diffyg gwybodaeth ynglŷn â'r llwybr i gerddwyr i'r gogledd o'r safle datblygu. Dylai unrhyw Asesiad Canlyniadau Llifogydd diwygiedig ystyried asesiadau priodol o'r posibilrwydd o fethiant yn yr amddiffynfeydd, yn benodol y cyflymderau disgwylidig o ystyried agosrwydd y datblygiad at y cob. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwybodol bod Afon Cefni wedi gorlifo'i glannau ar sawl achlysur ac y dylai unrhyw ddogfennau diwygiedig ystyried hyn. Rhoddwyd cyfle i'r ymgeisydd ddiwygio'r Asesiad Canlyniadau Llifogydd yn sgil sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru, fodd bynnag ni dderbyniwyd unrhyw wybodaeth bellach ac, o'r herwydd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwrthwynebu'r datblygiad ar sail llifogydd.

Er y daw'r Asesiad Canlyniadau Llifogydd i'r casgliad y gellir rheoli'r risg llifogydd i'r datblygiad arfaethedig ac y gellir bodloni holl argymhellion CNC a Nodyn Cyngor Technegol 15, mae Nodyn Cyngor Technegol 15 (2004) yn nodi'n glir na ddylid caniatáu defnydd preswyl, sydd yn ddatblygiad bregus iawn, ym Mharth 2. Dim ond y mathau o ddatblygiad a rhestrir fel 'datblygiad llai bregus' ddylai fod yn destun y cyfiawnhad a'r profion derbynioldeb a nodir yn adran 6 a 7 y Nodyn Cyngor Technegol 15 (2004), ond nid dyma'r achos yn yr achos hwn. Nid yw lleoliad y datblygiad yn dderbyniol mewn perthynas â risg lifogydd, ac mae'n groes i bolisi PS6 a'r cyngor a gynhwysir yn y Nodyn Cyngor Technegol 15 (2004) a Pholisi Cynllunio Cymru. Er mwyn osgoi amheuaeth, ni fyddai'r sefyllfa fawr gwahanol pe byddai'r cais wedi cael ei ystyried yn erbyn y Nodyn Cyngor Technegol 15 (2025) mwy diweddar.

Mae Paragraff 11.7 o Nodyn Cyngor Technegol (2004) yn datgan, os yw'r awdurdod cynllunio â'i fryd ar fynd yn groes i gyngor yr Asiantaeth Amgylchedd, dylai hysbysu'r Asiantaeth cyn rhoi caniatâd, a chaniatáu digon o amser i gyflwyno sylwadau pellach er mwyn sicrhau y gellir rheoli'r canlyniadau'n dderbyniol.

Casgliad

Nid yw lleoliad y datblygiad yn dderbyniol mewn perthynas â risg lifogydd, ac mae'n groes i bolisi PS6 a'r cyngor a gynhwysir yn y Nodyn Cyngor Technegol 15 (2004) a Pholisi Cynllunio Cymru. Mae polisi TAI 4 yn cefnogi datblygiad preswyl ym Malltraeth, mae graddfa'r annedd yn cael ei ystyried yn dderbyniol a gellid datrys materion eraill, megis yr effaith ar gymdogion, priffyrdd ac ecoleg, fel rhan o gais materion a gadwyd yn ôl, ond er hynny, nid yw'r ffactorau hyn yn ddigonol i wrthbwysu'r gwrthwynebiad sylfaenol i'r egwyddor o leoli datblygiad bregus iawn mewn Parth C2, ac mae'r ystyriaeth hwnnw'n drech nag ystyriaethau eraill.

Argymhelliad

Bod y cais yn cael ei wrthod oherwydd y rheswm canlynol:

(01) Mae'r cais yn un am ddatblygiad preswyl ym mharth C2, fel y'i diffiniwyd yn y Mapiau Cyngor Datblygu y cyfeirir atynt dan Nodyn Cyngor Technegol 15 "Datblygiad a Risg Llifogydd" (Gorffennaf 2004). O'r herwydd mae'r cynnig yn groes i Bolisi PCYFF2 a Pholisi Strategol PS 6 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn, Nodyn Cyngor Technegol 15 - Datblygiad a Risg Llifogydd (Gorffennaf 2004) a Pholisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 12).

Pwyllgor Cynllunio: 01/10/2025


7.2

Rhif y Cais: OP/2025/1

Ymgeisydd: Cyngor Tref Caergybi

Bwriad: Cais amlinellol ar gyfer codi 9 annedd fforddiadwy yn cynnwys manylion llawn o'r mynedfa, ymddangosiad, gosodiad a graddfa ar dir ger

Lleoliad: Llanfawr Road, Caergybi



Adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (Colette Redfern)

Argymhelliad: Caniatáu

Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor

Ar gais yr Aelod Lleol.

Yn y pwyllgor cynllunio a gynhaliwyd ar yr 3ydd o Fedi 2025, argymhellodd yr aelodau y dylid cynnal ymweliad safle. Cynhaliwyd ymweliad safle ar y 17eg o Fedi a mae'r aelodau bellach yn gyfarwydd o'r safle a'i osodiad.

Y Cynnig a'r Safle

Mae'r cynnig yn gais amlinellol ar gyfer codi 9 annedd fforddiadwy (eiddo cymdeithasol ar rent) gyda mynediad i'r safle, ymddangosiad, graddfa a'r cynllun yn cael eu hystyried fel rhan o'r cais cyfredol. Mae'r cais ar gyfer codi 6 byngalo, dau dŷ pâr dau lawr ac un annedd sengl. Darperir mynediad i'r safle drwy Ffordd Llanfawr, a bydd yn gyfochr eiddo, sef 32 Ffordd Llanfawr.

Mae'r safle wedi ei leoli o fewn ffin ddatblygu Caergybi, ac ar dir sydd wedi ei ddynodi fel man agored yng Nghynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn. Mae'r safle'n eistedd rhwng Ffordd Bryn Glas a Cae Braenar. Mae'r safle wedi ei ystlysu gan eiddo preswyl. Ceir cymysgedd o eiddo un llawr a deulawr yn yr ardal gyfagos, heb unrhyw batrwm datblygu penodol.

Mater(ion) Allweddol

Mae'r prif faterion yn gysylltiedig â'r cais yn cynnwys:

- i. Cydymffurfiaeth â Pholisïau
- ii. Eiddo ar eiddo cyfagos
- iii. Dyluniad
- iv. Diogelwch y Briffordd
- V. Bioamrywiaeth ac Ecoleg

Polisïau

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

Polisi PCYFF 1: Ffiniau Datblygu
Polisi PCYFF 2: Meini Prawf Datblygu
Polisi PCYFF 3: Dylunio a Siapio Lle
Polisi PCYFF 4: Dylunio a Thirweddu
Polisi PCYFF 5: Rheoli Carbon
Polisi PCYFF 6: Cadwraeth Dŵr
Polisi TAI 1: Tai yn y Ganolfan Isranbarthol a'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol
Polisi TAI 8: Cymysgedd Briodol o Dai
Polisi TAI 15: Trothwy Tai Fforddiadwy a'u Dosbarthiad
Polisi AMG 5: Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol
Polisi TRA 2: Safonau Parcio
Polisi TRA 4 : Rheoli Ardrawiadau Cludiant
Polisi AMG 3: Gwarchod a Gwella Nodweddion a Rhinweddau sydd yn Nodedig i Gymeriad y Dirwedd Leol
Polisi Strategol PS 1: Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig
Polisi Strategol PS 4: Trafnidiaeth Gynaliadwy, Datblygiad a Hygyrchedd
Polisi Strategol PS 5: Datblygu Cynaliadwy
Polisi Strategol PS 19: Gwarchod a Lle bo'n Berthnasol Gwella'r Amgylchedd Naturiol
Polisi ISA 1: Darpariaeth Isadeiledd

Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12, Chwefror 2024)

Nodyn Cyngor Technegol 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy (2006)
Nodyn Cyngor Technegol 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur (2009)
Nodyn Cyngor Technegol 11: Sŵn (1997)
Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio (2016)
Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth (2007)
Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Gymraeg (2017)

Canllaw Cynllunio Atodol - Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (2007)
Canllaw Cynllunio Atodol - Tai Fforddiadwy (2004)

Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol: Canllawiau Dylunio yr Amgylchedd Adeiledig Gwledig a Threfol (2008)
Canllaw Cynllunio Atodol - Ymrwymadau Cynllunio (Cytundebau Adran 106) (2008)

Polisi ISA 2: Cyfleusterau Cymunedol

Polisi PCYFF 6: Cadwraeth Dŵr

Polisi Strategol PS 6: Lliniaru Effeithiau Newid Hinsawdd ac Addasu Iddynt

Polisi ISA 4: Diogelu Llecynnau Agored Presennol

Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd

Ymgynhorai	Ymateb
Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus/ Public Rights of Way Officer	Dim ymateb
Iechyd yr Amgylchedd / Environmental Health	Sylwadau safonol
Gwasanaeth Addysg / Education Service	Digon o lefydd yn ysgolion lleol
Strategol Tai / Housing Strategy	Rhodddwyd manylion am nifer y bobl ar y rhestr aros
Ymgynghorydd Tirwedd / Landscape Advisor	Dim ymateb
Polisi Cynllunio / Planning Policy	Darparwyd manylion am bolisïau perthnasol
Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales	Pryderon bod y cynllun yn cysylltu â system garthffosiaeth breifat. Cadarnhaodd yr asiant fod y ffurflen gais wedi'i chwblhau'n anghywir a bod y tai arfaethedig yn cysylltu â'r system garthffosiaeth brif a'i bod wedi diwygio'r ffurflen gais i adlewyrchu hyn.
GCAG / GAPS	Dim ymateb
Ymgynghorydd Ecolegol ac Amgylcheddol / Ecological and Environmental Advisor	Dim gwrthwynebiad. Mewn ymateb i'r pryderon a godwyd gan y Aelod Lleol, dywedodd bod ardaloedd mwynhad a dorwyd yn darparu budd bach o ran bioamrywiaeth.
Draenio / Drainage	Sylwadau draenio safonol yn ymwneud â System Drai Cynaliadwy.
Priffyrdd a Trafnidiaeth / Highways and Transportation	Argymhell caniatáu gyda amodau
Dwr Cymru/Welsh Water	Argymhell caniatáu gyda amodau
Cynghorydd Pip O'Neill	Cefnogi - awyddus i weld byngalos yn cael eu hadeiladu yn yr ardal
Cynghorydd Jeff M. Evans	Galw-i mewn oherwydd pryderon am gynnydd yn y symud traffig, materion draenio a materion ecolegol.
Cyngor Tref Caergybi / Holyhead Town Council	Dim ymateb
Ymgynghorydd Treftadaeth / Heritage Advisor	Dim ymateb
Sport Wales FIT	Dim ymateb

Chwaraeon Cymru / Sport Wales	Dim ymateb
-------------------------------	------------

Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r cais trwy anfon llythyrau hysbysu personol at feddianwyr eiddo cyfagos. Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn unrhyw sylwadau oedd 28/02/2025. Pan ysgrifennwyd yr adroddiad hwn roedd yr adran wedi derbyn tri llythyr, gydag un yn cynnwys 16 llofnod a 4 sylw ar-lein.

Gellir crynhoi'r prif faterion fel a ganlyn;

- i. Diogelwch y Briffordd, cynnydd mewn traffig
- ii. Colli man agored ac mae llwybr cerdded yn rhedeg drwy'r safle
- iii. Materion draenio
- iv. Effaith ar brisiau eiddo

Mae fy ymateb i'r materion a godwyd fel a ganlyn;

- i. Ymgynghorwyd â'r Awdurdod Priffyrdd, ac nid ydynt yn gwrthwynebu'r cynnig ar ôl derbyn darluniad diwygiedig yn dangos y llain welededd.
- ii. Er y cydnabyddir fod y safle wedi'i ddynodi yn ardal agored a warchodir dan Bolisi ISA 4, Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn, Mae'r cais yn cynnig gwella'r cyfleusterau chwarae presennol ar dir cyfagos. Mae'r cais arfaethedig yn cynnwys cadw'r llwybrau troed sydd wedi'u lleoli ger y safle, a darparu llwybrau troed i'r ardal chwarae.
- iii. Ymgynghorwyd â'r Adain Draenio, Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, ac nid ydynt wedi codi unrhyw wrthwynebiad i'r cais.
- iv. Nid yw hyn yn ystyriaeth gynllunio berthnasol.

Hanes Cynllunio Perthnasol

19C1159 - Cais amlinellol gyda'r holl faterion wedi eu cadw yn ôl ar gyfer codi stad tai (6 fflat, 7 ty) ar dir yn Ffordd Llanfawr, Caergybi - Tynnu yn ôl 01/12/2017

Prif Ystyriaethau Cynllunio

i. Cydymffurfiaeth gyda'r Polisi - Mae Caergybi'n cael ei ddiffinio fel Canolfan Gwasanaeth Trefol dan Bolisi TAI 1. Mae'r polisi hwn yn cefnogi tai sy'n bodloni strategaeth y Cynllun drwy ddyraniadau tai a safleoedd addas nad ydynt wedi'u dynodi o fewn ffiniau datblygu'n seiliedig ar y ddarpariaeth ddangosol o fewn y Polisi. Mae'r safle'n eistedd o fewn ffin ddatblygu Caergybi.

Yn unol â pholisi PCYFF 1 (Ffiniau Datblygu), caiff cynigion sydd y tu mewn i ffiniau datblygu eu cymeradwyo cyn belled eu bod yn cydymffurfio â pholisïau a chynigion eraill yn y cynllun, polisïau cenedlaethol ac ystyriaethau polisi perthnasol. Felly, gellir ystyried y cynnig yn erbyn Polisi TAI 1.

Y cyflenwad dangosol ar gyfer Caergybi yn ystod oes y Cynllun yw 833 uned (yn cynnwys 'lwfans llithriad' o 10%, sy'n golygu bod y dull o gyfrifo'r ffigwr hwn wedi ystyried amgylchiadau nad oes modd eu rhagweld a allai ddylanwadu ar y ddarpariaeth dai, e.e. materion perchnogaeth tir, cyfyngiadau isadeiledd, ayb.) (430 ar safleoedd dynodedig a 403 ar hap-safleoedd). Rhwng 2011 a 2023, mae cyfanswm o 470 uned wedi cael eu cwblhau yng Nghaergybi (191 ar safleoedd dynodedig a 279 ar hap-safleoedd). Ym mis Ebrill 2023 roedd 101 uned yn y banc tir ar hap h.y. safleoedd â chaniatâd cynllunio, ac sy'n debygol o gael eu datblygu. Roedd banc tir y safleoedd dynodedig yn cynnwys 36 uned. Golyga hyn fod capasiti o fewn y cyflenwad dangosol ar gyfer setliad Caergybi, ac nid oes angen Datganiad Iaith Gymraeg.

Cymysgedd Tai - Mae Polisi TAI 8 'Cymysgedd Tai Priodol' yn ceisio sicrhau bod datblygiadau preswyl newydd yn cyfrannu at wella'r cydbwysedd tai a bodloni'r anghenion sydd wedi'u hadnabod o fewn y gymuned gyfan. Dylid rhoi ystyriaeth i'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, y Gofrestr Tai Cyngor, y Gofrestr Tai Teg, rhagamcanion aelwydydd yn seiliedig ar 2014 ac ati i asesu addasrwydd y cymysgedd o dai o ran math a deiliadaeth a gynigir ar safleoedd datblygu i unioni anghydbwysedd a nodwyd yn y farchnad

dai leol. Mae Datganiad Tai wedi'i gyflwyno i gefnogi'r cais ac mae'r wybodaeth a ddarparwyd yn nodi bod angen y tai arfaethedig.

Tai Fforddiadwy - Mae Polisi TAI 15 yn gofyn am ddarpariaeth briodol o dai fforddiadwy. Mae ganddo ffigur trothwy o 2 uned neu fwy o fewn Canolfannau Gwasanaeth Trefol fel Caergybi. Gan fod y datblygiad arfaethedig yn cynnig cynnydd o 9 uned, mae hyn yn cwrdd â'r trothwy a nodir ym Mholisi TAI 15 ar gyfer gwneud cyfraniad at dai fforddiadwy. Gan fod Caergybi wedi'i leoli o fewn ardal prisiau tai 'Caergybi' yn y Cynllun, nodir bod darparu 10% o dai fforddiadwy yn hyfyw. Gan fod cynnydd o 9 uned yn cael eu cynnig, mae hyn yn golygu y dylai 0.9 o gyfanswm yr unedau newydd fod yn fforddiadwy ac felly dylai 1 annedd fod yn fforddiadwy.

Mae hefyd yn werth nodi, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, mai bwriad y datblygwr yw gwneud y datblygiad yn 100% fforddiadwy, er na ellir sicrhau hyn yn gyfreithiol a bod y 90% fforddiadwyedd ychwanegol yn ôl disgresiwn y datblygwyr.

Er y cydnabyddir fod y safle wedi'i ddynodi yn ardal agored a warchodir dan Bolisi ISA 4, Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn, mae Polisi ISA 4 yn nodi y bydd cynigion a fydd yn arwain at golli manau agored presennol gan gynnwys unrhyw gyfleusterau cysylltiedig sydd â gwerth hamdden, amwynder neu fywyd gwyllt sylweddol yn cael eu gwrthod oni bai eu bod yn cydymffurfio â'r meini prawf canlynol;

1. Mae gormodedd cyffredinol o ddarpariaeth yn y gymuned;
2. Mae'r gofyniad hirdymor am y cyfleuster wedi dod i ben;
3. Gellir cynnig darpariaeth amgen o'r un safon mewn ardal sydd yr un mor hygyrch i'r gymuned leol dan sylw;
4. Byddai ailddatblygu rhan fach o'r safle yn unig yn cadw a gwella'r cyfleuster fel adnodd hamdden.

Bydd y cynnig yn arwain at golli rhan o'r man agored presennol a'r cynllun arfaethedig i wella'r cyfleusterau chwarae presennol, fodd bynnag, ni ddarparwyd unrhyw fanylion fel rhan o'r cais a bydd amod yn cael ei osod ar y caniatâd i sicrhau bod manylion llawn yn cael eu cyflwyno fel rhan o unrhyw gais manwl neu llawn.

Rhaid nodi hefyd fod man agored i'r gogledd ddwyrain o'r safle, rhwng Cae Braenar a'r arfordir. Er nad yw'r cynnig yn cydymffurfio'n llawn â gofynion Polisi ISA 4, bydd y cynnig yn darparu tai cymdeithasol fforddiadwy i'r gymuned a bydd yn gwella'r cyfleusterau chwarae presennol.

ii. Effaith ar eiddo cyfagos - Mae dyluniad y cynllun yn ystyriol, ac mae'r eiddo sydd wedi'u lleoli y tu ôl i 26-32 Ffordd Llanfawr wedi'u gosod ar ongl gydag ochr yr eiddo wedi'i lleoli'n agos at y garejys / ardal barcio'r eiddo. Gan fod y tir prysg a'r ardal chwarae i'w cadw ar hyd y ffiniau dwyreiniol a gorllewinol, nid oes unrhyw eiddo cyfagos y tu ôl i'r eiddo. Mae'r unedau arfaethedig y tu ôl i 29 a 30 Cae Braenar yn unllawr ac felly ni ystyrir y bydd y cynnig yn cael effaith ar fwynderau y trigolion yr anheddau hynny.

Mae pryder wedi'i godi y bydd mynediad i'r anheddau arfaethedig yn rhedeg ar hyd talcen 32 Ffordd Llanfawr. Mae drws ffrynt yr eiddo wedi'i leoli ar dalcen yr eiddo ac mae ffens bresennol wedi'i lleoli ar hyd y ffin â safle'r cais. Darperir sgrinio trwy blannu coed ar hyd ffin y safle gyda'r eiddo a fydd yn gweithredu fel rhwystr gweledol a sŵn, fodd bynnag nid yw'r cynllun tirlunio yn fanwl, a bydd amod yn cael ei osod ar y caniatâd bod manylion llawn yn cael eu cyflwyno fel rhan o unrhyw gais cynllunio manwl neu llawn.

iii. Dyluniad - Fel y nodwyd uchod mae cymysgedd o eiddo unllawr a deulawr yn yr ardal ac mae'r cynllun arfaethedig yn cynnwys cymysgedd o 3 pâr o fyngalos lled-ddynodedig ac annedd ddeulawr ar wahân a phâr o anheddau lled-ddynodedig. Er bod y cais ar ffurf amlinellol, dylid ystyried manylion dyluniad yr unedau arfaethedig fel rhan o'r cais presennol.

Er bod dyluniad yr unedau'n cael ei ystyried yn dderbyniol, ni ystyrir bod defnyddio sinc fel deunydd toi yn dderbyniol gan nad yw hyn yn ategu cymeriad yr eiddo cyfagos sydd wedi'u gorffen â llechi / teils. Felly

bydd amod yn cael ei atodi i'r caniatâd i ddefnyddio llechi naturiol fel deunyddiau toi ar gyfer yr unedau arfaethedig.

iv. Diogelwch Priffyrdd - Fel y nodwyd uchod, bydd mynediad i'r safle ar gael drwy Ffordd Llanfawr. Ymgynghorwyd â'r Awdurdod Priffyrdd ac nid oes ganddynt unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig. Er y cydnabyddir y gallai codi 9 annedd newydd gynhyrchu traffig ychwanegol, mae'r safle o fewn ffin ddatblygu Caergybi sydd wedi'i dynodi'n Ganolfan Gwasanaeth Trefol.

Mae'r Awdurdod Priffyrdd wedi gwneud cais bod amod yn cael ei gynnwys ar y caniatâd yn nodi na fydd unrhyw fynediad gan gerddwyr na cherbydau, heblaw am yr hyn a ddangosir ar y cynlluniau a gyflwynwyd, yn cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r datblygiad. Mae'r cais yn cynnig cyswllt llwybr troed i'r llwybr troed cyfagos ac felly ni ystyrir bod modd cynnwys yr amod hwn. Hefyd, bydd angen i'r cynllun gydymffurfio â'r lluniadau sydd wedi eu cymeradwyo ac mae'r fynedfa arfaethedig i gerbydau i'r safle ac oddi yno wedi ei dangos ar y lluniadau a gyflwynwyd fel rhan o'r cais.

v. Bioamrywiaeth ac Ecoleg - Mae'r cyngor diwygiedig ym Mhennod 6 ym Mholisi Cynllunio Cymru yn ymwneud â dilyn dull fesul cam o gynnal a gwella bioamrywiaeth, meithrin rhwydweithiau ecolegol cydnerth a darparu manteision net i fioamrywiaeth. Y flaenoriaeth gyntaf yw osgoi difrod i fioamrywiaeth yn ei hystyr ehangaf a gallu'r ecosystem i weithio. Os gallai fod yna effeithiau amgylcheddol andwyol, rhaid i awdurdodau cynllunio fod yn fodlon bod ystyriaeth lawn wedi'i rhoi i safleoedd amgen rhesymol a fyddai'n achosi llai o ddifrod, dim difrod neu'n esgor ar fanteision.

Mae'r Aelod Lleol wedi codi pryder ynghylch effaith y cynllun arfaethedig ar ecoleg. Mae'r Ymgynghorydd Ecolegol wedi derbyn copi o'r materion a godwyd ac wedi cadarnhau nad oedd unrhyw wrthwynebiad i'r cynllun. Nid yw safle'r cais yn ymwthio i'r tir prysg cyfagos i'r gorllewin o safle'r cais. Fel y nodwyd uchod, cyflwynwyd cynllun tirlunio a Datganiad Seilwaith Gwyrdd yn nodi nifer y coed i'w plannu fel rhan o'r cynnig, fodd bynnag, ystyrir y bydd angen cynllun tirlunio manwl i ddangos nifer pob rhywogaeth frodorol a bydd angen lleoliad y blwch gwenyn arfaethedig fel rhan o unrhyw gais manwl neu lawn yn y dyfodol.

Casgliad

Er bod y cynnig yn arwain at golli man agored gwarchodedig, cynigir gwella'r cyfleusterau presennol fel rhan o ddatblygiad preswyl y safle. Ar ôl ystyried y cynllun yn erbyn holl bolisiau perthnasol y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ynghyd ag ystyried yr holl ystyriaethau perthnasol eraill, ystyrir bod y cynnig yn dderbyniol ac na fydd yn cael effaith andwyol ar fwynderau eiddo cyfagos na diogelwch priffyrdd a bydd yn darparu gwelliannau bioamrywiaeth.

Yn amodol ar yr amodau isod a llofnodi cytundeb cyfreithiol Adran 106 i un o'r unedau fod yn fforddiadwy am byth, ystyrir bod y cynnig yn dderbyniol ac felly argymhellir ei gymeradwyo.

Argymhelliad

Bod y cais yn cael ei gymeradwyo yn amodol ar yr amodau canlynol:

(01) Bydd manylion tirlunio (a elwir yn "y materion wrth gefn" o hyn allan) yn cael eu cyflwyno ac yn cael eu cymeradwyo yn ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol cyn y bydd unrhyw ddatblygiad yn cael ei gyflawni yn unol â'r hyn a gymeradwywyd.

Rheswm: Mae'r cais yn un ar gyfer caniatâd cynllunio amlinellol.

(02) Bydd y datblygiad yn dechrau un ai cyn diwedd y pum mlynedd o ddyddiad y caniatâd hwn neu cyn i'r ddwy flynedd ddod i ben ers dyddiad caniatâd cymeradwyo'r materion wrth gefn diwethaf, pa bynnag un sydd hwyraf.

Rheswm: Er mwyn atal cronriad caniatâd cynllunio er mwyn galluogi'r Cyngor i adolygu addasrwydd y datblygiad yng ngoleuni'r amgylchiadau a newidiwyd ac er mwyn cydymffurfio â darpariaethau Adran 92(2) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

(03) Bydd unrhyw gais ar gyfer cymeradwyo'r materion wrth gefn yn cael ei wneud i'r awdurdod cynllunio lleol ddim hwyrach na thair blynedd o ddyddiad y caniatâd hwn.

Rheswm: Er mwyn atal cronriad caniatâd cynllunio er mwyn galluogi'r Cyngor i adolygu addasrwydd y datblygiad yng ngoleuni'r amgylchiadau a newidiwyd ac er mwyn cydymffurfio â darpariaethau Adran 92(2) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

(04) Bydd raid adeiladu pob dreif gerbydau ar oledf na fydd yn ddim mwy serth nag 1 mewn 20 am y 5 metr cyntaf yn ôl o ochr agosaf y llwybr cerdded cyffiniol.

Rheswm: Er mwyn lleihau'r perygl, rhwystr ac anhwylustod i ddefnyddwyr y briffordd a'r fynedfa.

(05) Rhaid adeiladu'r fynedfa gyda lleiniau gweld 45 metr wrth 45 metr o bobtu. O fewn llinellau'r lleiniau gweld ni chaniateir unrhyw beth uwch na 1 metr o uchder uwchlaw lefel y gerbydlon gyfagos.

Rheswm: Er mwyn sicrhau rhyngweledd digonol rhwng y fynedfa a'r briffordd gyhoeddus gyfredol a hynny er diogelwch a hwylustod defnyddwyr y briffordd a'r fynedfa.

(06) Ni chaniateir i ddŵr wyneb o gwrtil y safle arllwys i'r briffordd.

Rheswm: Er mwyn lleihau perygl, rhwystr ac anhwylustod i ddefnyddwyr y briffordd a'r datblygiad.

(07) Rhaid i'r manylion sydd i'w cyflwyno i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn unol ag Amod (1) uchod gynnwys manylion llawn cynllun yn dangos yr holl ddulliau amgáu arfaethedig o amgylch ac o fewn y safle boed hynny drwy gyfrwng waliau neu ffensys. Bydd y dull caeedig a gymeradwywyd yn cael ei adeiladu neu ei godi cyn i neb fyw yn y datblygiad a ganiateir drwy hyn.

Rheswm: Er mwyn sicrhau bod manylion ac edrychiad y datblygiad yn dderbyniol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

(08) Rhaid i'r manylion sydd i'w cyflwyno i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn unol ag Amod (1) uchod gynnwys manylion o lefelau slabiau arfaethedig yr anheddau mewn perthynas â lefelau presennol a bwriadedig y safle a'r ardal o'i amgylch. tir. Rhaid adeiladu'r tai gyda slabiau ar lefelau sydd wedi eu cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth

(09) Rhaid i'r manylion a gyflwynir i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn unol ag Amod (1) uchod yn cynnwys cynllun tirlunio sy'n cynnwys gwelliannau ecolegol a bioamrywiaeth. Bydd y cynllun a gymeradwyir yn cael ei weithredu ddim hwyrach na'r tymor plannu cyntaf ar ôl meddiannu'r annedd neu gwblhau'r datblygiad, pa un bynnag sydd gyntaf. Bydd unrhyw goed neu lwyni sy'n rhan o'r cynllun tirlunio a gymeradwywyd ac sydd o fewn cyfnod o bum mlynedd ar ôl plannu yn methu â sefydlu, yn cael eu difrodi'n ddifrifol neu'n cael eu heintio, yn marw neu'n cael eu symud am unrhyw reswm yn cael eu disodli yn y tymor plannu nesaf gan goeden. neu lwyni o rywogaeth, maint ac aeddfedrwydd i'w cymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Rheswm: Er budd mwynderau gweledol yr ardal.

(10) Ni chyflawnir unrhyw ddatblygiad hyd nes y bydd cynllun i alluogi darparu seilwaith band eang sy'n gallu gigabit o ffin y safle i'r anheddau/adeiladau a ganiateir drwy hyn wedi'i gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gytuno'n ysgrifenedig ganddo. Bydd datblygiad yn cael ei wneud yn unol â'r manylion a gymeradwywyd.

Rheswm: Cefnogi'r gwaith o gyflwyno seilwaith cyfathrebu digidol ledled Cymru yn unol â Pholisi 13 Cymru'r Dyfodol.

(11) Er gwaethaf y deunydd toi a ddangosir ar y cynlluniau a gyflwynwyd gyda chais cynllunio OP/2025/1 rhaid defnyddio llechi naturiol o liw unffurf fel deunydd toi'r tai arfaethedig.

Rheswm: Er mwyn sicrhau bod y datblygiad er budd amwynder.

(12) Dim ond rhwng yr oriau 08:00 - 18:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener a 08:00 – 13:00 ar ddydd Sadwrn y bydd gwaith adeiladu yn cael ei wneud. Ni chaniateir gwneud unrhyw waith ar ddydd Sul na Gwyliau Banc.

Rheswm: Er budd amwynder preswyl

(13) Cwblheir y datblygiad a ganiateir drwy hyn yn llwyr unol â'r manylion a ddangosir ar y cynlluniau isod, a gynhwysir yn y ffurflen gais ac mewn unrhyw ddogfennau eraill gyda'r cais oni bai eu bod wedi eu cynnwys o fewn unrhyw ddarpariaeth yn amodau'r caniatâd cynllunio hwn.

- Cynllun rhif 001 - Adolygiad P2 - Cynllun Lleoliad
- Cynllun rhif 004 - Adolygiad P3 - Cynllun Safle Arfaethedig
- Cynllun rhif SK03 - Cynllun llawr a drychiadau - 5p3yg
- Cynllun rhif SK04 - Cynllun llawr a drychiadau - 3p2yg byngalo
- Cynllun llawr a drychiadau SK05 - PCynllun llawr a drychiadau - 7p4yg
- Asesiad Effaith Coed - Cefn y Coed
- Datganiad Tai - Dewis Architecture
- Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu - Dewis Architecture
- Adroddiad Asesiad Ecolegol Rhagarweiniol - Cambrian Ecology

Rheswm: I sicrhau bod y datblygiad wedi'i weithredu yn unol a'r manylio a gymeradwywyd

(14) Mae darpariaethau Atodlen 2, Rhan 1, Dosbarthiadau A, B ac E Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad cyffredinol a Ganiateir) 1995 (fel y diwygiad) (neu unrhyw Orchymyn sy'n diddymu neu'n ailweithredu'r Gorchymyn hwnnw) drwy hyn yn cael eu heithrio.

Rheswm: Er lles mwynderau

(15) Rhaid i'r manylion a gyflwynir i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn unol ag Amod (1) uchod yn cynnwys cynllun draenio dŵr budr a dŵr arwyneb ar gyfer y safle wedi'i gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gytuno'n ysgrifenedig. Bydd y cynllun yn darparu ar gyfer gwaredu llif dŵr budr a dŵr arwyneb ac wedi hynny fe'i gweithredwyd yn unol â'r manylion cymeradwy cyn meddiannu'r datblygiad.

Rheswm: I atal gorlwytho hydrolig y system garthffosiaeth gyhoeddus, i ddiogelu iechyd a diogelwch preswylwyr presennol a sicrhau na fydd gwastraff na niwed i'r amgylchedd.

(16) Rhais i'r manylion a yflwynir i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig gan y Awdurdod Cynllunio Lleol yn unol â Rhagdybiaeth (1) uchod, yn cynnwys manylion llawn o gynllun yn nodi'r gwelliannau arfaethedig i'r ardal chwarae bresennol. Dylid cwblhau'r gwelliannau â cymeradwywyd i'r ardal chwarae cyn i'r datblygiad a gymeradwywyd yma gael ei feddiannu.

Rheswm: I gydymffurfio â pholisi

Y cynllun datblygu sy'n berthnasol i Ynys Môn yw'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (2017). Roedd y polisiau canlynol yn berthnasol i'r sylw a roddwyd i'r cais hwn: PCYFF 1, PCYFF 2, PCYFF 3, PCYFF 4, PCYFF 6, TAI 1, TAI 8, TAI 15, TRA 2, TRA 4, AMG 3, AMG 5, PS 1, PS 4, PS 5, PS 6, PS 19, ISA 1 a ISA 4.

Hefyd, rhoi awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaeth ychwanegu at, dileu neu newid/amrywio unrhyw amod(au) cyn rhoi'r caniatâd cynllunio, cyn belled ag na fydd y newidiadau yn effeithio ar natur neu yn mynd i galon y caniatâd/datblygiad.

Adroddiad i: PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION

Dyddiad: 1 HYDREF 2025

Pwnc: CYNGOR SIR YNYS MÔN/GORCHYMYN RHEOLEIDDIO TRAFFIG

Deilydd Portffolio: Y CYNGHORYDD GARY PRITCHARD

Swyddog Arweiniol: Gethin Gilford

Swyddog Cyswllt: Alun Roberts

Natur yr adroddiad a'r rheswm amdano:

Rhoi manylion y gwrthwynebiad a ddaeth i law i'r Gorchmynion Rheoleiddio Traffig arfaethedig. Hefyd, gyflwyno sylwadau yng nghyswllt nifer o leoliadau o ran hyd y ffyrdd sydd i'w heithrio o'r terfynau cyflymder gorfodol 20mya a gyflwynwyd ym mis Medi 2023.

Cyflwyno penderfyniad ar sut y dylai'r Awdurdod fwrw ymlaen â'r Gorchmynion Rheoleiddio Traffig yng ngoleuni'r sylwadau a'r gwrthwynebiad a ddaeth i law.

A. CYFLWYNIAD / CEFNDIR / MATERION

Cynigiwyd y Gorchmynion Rheoleiddio Traffig yn rhan o adolygiad i'r terfynau cyflymder gorfodol 20mya a gyflwynwyd ledled Ynys Môn ym mis Medi 2023. Yn unol â rhaglen Llywodraeth Cymru o leihau cyflymder mewn ardaloedd preswyl, cafodd pob ffordd â statws 'ffyrdd cyfyngedig', trwy system o oleuadau stryd a chyda therfyn 30mya, ei gwneud, yn ddiofyn, yn ffordd 20mya oni bai ei bod, fel arall, wedi'i heithrio. Daeth y mesur hwn i rym ledled Cymru 17 Medi 2023.

Pan gafodd y terfynau cyflymder 20mya eu cyflwyno yn wreiddiol, nododd yr Awdurdod, ar y cyd â Llywodraeth Cymru / Trafnidiaeth Cymru, nifer o leoliadau lle credid na ddylai'r terfyn cyflymder 20mya fod yn berthnasol ac na ddylid newid y terfyn 30mya oedd yno. Ar y pryd, roedd y meini prawf yn seiliedig ar ddwysedd y tai a siopau manwerthu cyfagos oedd yn wynebu ffordd a pha mor agos oeddynt at gyfleusterau, megis sefydliadau addysgol, canolfannau cymunedol ac ysbytai. Cynhaliodd yr Awdurdod adolygiad arall o'r lleoliadau hyn, yn seiliedig ar wybodaeth leol a barn broffesiynol, er mwyn penderfynu a oedd yn briodol i'r rhannau o'r ffyrdd a nodwyd gael eu heithrio.

Nododd canllawiau a gyflwynwyd ar y pryd gan Lywodraeth Cymru y dylid ystyried eithriadau, yn bennaf, ar ffyrdd dosbarthedig A a B ac y dylai hyd terfyn cyflymder fod yn o leiaf 300m, gyda lle ar gyfer mynediad. O ganlyniad, yn seiliedig ar y meini prawf uchod, cyflwynwyd y terfynau cyflymder 20 mya a'r rhannau o'r ffyrdd oedd wedi'u heithrio (17 i gyd) ym mis Medi 2023.

Yn sgil cyflwyno'r terfynau cyflymder gorfodol 20 mya ar ffyrdd cyfyngedig yng Nghymru, derbyniodd Llywodraeth Cymru adborth a beirniadaeth sylweddol gan y cyhoedd, ynghyd â deiseb ac arni bron i 470,000 o lofnodion.

Ym mis Ebrill 2024, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Trafnidiaeth, Ken Skates, y byddai newidiadau'n cael eu gwneud i Ganllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch pa ffyrdd y gellid eu heithrio o fod yn ffyrdd 20 mya, fel y gallai cynghorau wneud newidiadau i rai ffyrdd lle bo'n briodol a throi'r terfyn cyflymder yn ôl i 30 mya. Cyhoeddwyd, hefyd, y ceid Cyfnod o Wrando Cenedlaethol er mwyn annog pobl i gysylltu â'u hawdurdod lleol ynghylch pa ffyrdd yr hoffent eu gweld yn troi'n ôl i fod yn rhai 30 mya.

Cyhoeddwyd y canllawiau, oedd wedi'u diweddarau, ym mis Gorffennaf 2024. At ei gilydd, gwnaed newidiadau i lawer o'r geiriad o dan y Meini Prawf Lle, fel bod mwy o hyblygrwydd, a'i gwneud yn gliriach ar ba ffyrdd y gallai terfyn cyflymder o 30mya fod yn fwy priodol. Gwnaed i ffwrdd â'r ddau brif gwestiwn A a B oedd yn gosod eithriadau yn y canllawiau oedd wedi'u diweddarau a chael, yn eu lle, adran fyddai'n ystyried manteision/anfanteision cyflymder uwch.

Rhwng Ebrill 2024 a Thachwedd 2024, rhoddodd yr awdurdod wahoddiad i aelodau lleol, cynghorau tref/cymuned a'r cyhoedd roi adborth ar ba ffyrdd yr hoffent i'r awdurdod eu hasesu a rhoi rhesymau dilys dros y cais, yn seiliedig ar y canllawiau oedd wedi'u diweddarau. Gofynnwyd i Arriva, hefyd, am eu barn ar y safleoedd eithrio arfaethedig ac fe roesant adborth ar ba lwybrau y dylid eu blaenoriaethu. Cyhoeddwyd y rhestr derfynol o ffyrdd a awgrymwyd ar ein tudalen we. Amlygwyd cyfanswm o 47 o ffyrdd.

Aseswyd pob rhan o'r ffyrdd gan ddefnyddio fframwaith/dalen asesu fanwl yn seiliedig ar y canllawiau oedd wedi'u diweddarau. Cyflwynwyd rhestr fer o ffyrdd priodol i Grŵp Llywio oedd yn cynnwys uwch aelodau o'r adran Briffyrdd ac Aelodau Etholedig enwebedig o bob grŵp gwleidyddol, iddynt ystyried eu troi'n ôl i fod yn ffyrdd 30mya. Cynhaliwyd cyfanswm o dri chyfarfod rhwng Awst a Hydref 2024, er mwyn adolygu'r holl gynigion a llunio'r rhestr derfynol o 27 safle.

Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol â chynghorau tref/cymuned lleol, aelodau etholedig, gwasanaethau brys a chymdeithasau masnach cludo nwyddau rhwng 14 Chwefror 2025 a 4 Ebrill 2025.

Roedd rhestr yr ymgynghoreion fel a ganlyn –

- a) Heddlu Gogledd Cymru
- b) Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- c) Gwasanaeth Ambiwlans
- d) Y Gymdeithas Cludo ar y Ffyrdd
- e) Y Gymdeithas Trafnidiaeth Cludo Nwyddau
- f) Aelodau Etholedig Lleol
- g) Cynghorau Tref a Chymuned

Ni ddaeth yr un gwrthwynebiad i law gan y gwasanaethau brys na'r gymdeithas cludo nwyddau.

Ceir yn y tabl a ganlyn grynodeb o'r ymatebion -

Cynllun	Lleoliadau	Crynodeb o'r adborth a ddaeth i law
1. TWRCELYN	1) Amlwch A5025. 2) Porth Llechog A5025. 3) Lôn Parys-Ffordd Madyn	Mae Cyngor Tref Amlwch yn cytuno â'r cynigion.
2. CANOLBARTH MÔN	1) A5 Ffordd ddynesu Bodffordd 2) Ffordd ddynesu Rhosmeirch Coedana. 3) Stad Ddiwydiannol, Llangefni 4) Ffordd yr hen ysgol, Talwrn	Mae'r Aelod Lleol yn cytuno â'r cynigion ar gyfer Rhosmeirch a Bodffordd. Eglurhad pellach wedi'i roi i'r Aelod Lleol i gefnogi'r cynigion ar gyfer Stad Ddiwydiannol Llangefni a Thalwrn
3. BRO'R LLYNNOEDD, CRIGYLL a BRO ABERFFRAW	1) Caergeiliog A5. 2) Llanfachraeth A5025. 3) Llanfihangel yn Nhowyn, Awyrlu'r Fali. 4) Bryn Du. 5) Llyn Maelog A4080. 6) Niwbwrch A4080. 7) Y Fali, ffordd ddynesu A5 Gorad	Mae Cyngor Cymuned y Fali yn gwrthwynebu'r cynigion ar gyfer ffordd ddynesu'r A5 yn Gorad, y Fali oherwydd nad oes cydymffurfiaeth trwy'r rhan 40mya bresennol. Codwyd pryderon ynghylch diogelwch plant ysgol yn croesi'r ffordd i Lôn Spencer oherwydd nad oedd cerbydau'n arafu i 20mya pan oeddynt yn cyrraedd y pentref.
4. BODOWYR	1) Gaerwen Lôn Groes – Stad Ddiwydiannol 2) Llanddaniel Ffordd ddynesu'r A5 3) Llanddaniel Ffordd ddynesu Ffingar. 4) Croesfan wastad Llanddaniel	Mae Cyngor Cymuned Llanfihangel Ysgeifiog yn cefnogi'r cynnig ar gyfer Gaerwen, Lôn Groes - Stad Ddiwydiannol ond nodwyd y byddai hi'n well gan y cyngor cymuned i hyd cyfan y ffordd hon, gan gynnwys y ffyrdd cyswllt yn y Stad Ddiwydiannol, fod yn 30mya. Gofynnwyd hefyd am gael troi hyd cyfan yr A5 trwy Gaerwen yn ôl i fod yn 30mya.
5. CYBI	1) Trearddur B4545. 2) Parc Cybi, Caergybi 3) Ffordd Victoria, Caergybi	Ni ddaeth unrhyw adborth i law
6. SEIRIOL ac AETHWY	1) Llanfairpwll A5025. 2) Llandegfan, Ffordd yr Eglwys. 3) Llanfaes	Mae Cymuned Cwm Cadnant yn cefnogi'r cynigion. Bu iddynt godi pryderon ar wahân ynghylch y terfyn cyflymder 20mya presennol ar Lôn Ganol - Bryn Cichle, Llandegfan. Eu dymuniad oedd i hwn gael ei newid i 30mya.
7. LLIGWY	1) Pentraeth Talwrn Ffordd ddynesu B5109.	Cyngor Cymuned Llanfair Mathafarn Eithaf yn cytuno â'r cynnig ar gyfer Benllech.

	2) Pentraeth Biwmares Ffordd ddynesu'r B5109. 3) Benllech A5025	Gwrthwynebodd Cyngor Cymuned Pentraeth y cynnig ar ffordd ddynesu'r B5109 o Dalwrn oherwydd cynlluniau'r cyngor cymuned i adeiladu maes chwarae i blant ger cae'r ysgol. Byddai'r fynedfa iddo yn agor i fyny i'r B5109.
--	--	--

Wedi adolygu'r ymatebion, penderfynwyd peidio â bwrw ymlaen â'r eithriad arfaethedig ar gyfer ffordd ddynesu'r A5 - Gorad i'r Fali. Hefyd, dylid cynnal rhagor o drafodaethau gyda Chyngor Cymuned Pentraeth ar eu cynigion ar gyfer maes chwarae ar ffordd ddynesu Talwrn i'r pentref.

21 Mai 2025, cyhoeddodd yr Awdurdod Hysbysiad o Gynnig ar gyfer pob un o'r saith cynllun. Gyda hysbysiadau'n cael eu rhoi yn y wasg leol ac ym mhob lleoliad, rhoddwyd cyfle i'r cyhoedd ymateb a gwrthwynebu. At hyn, cyflwynwyd rhagor o wybodaeth ar wefan yr Awdurdod mewn perthynas â'r broses hon a manylion ar sut i ymateb i'r cynigion a hysbysebwyd. Daeth yr ymgynghoriad hwn i ben 13 Mehefin 2025. Mae copi o bob un o'r Hysbysiadau o Gynnig a chynlluniau sy'n manylu ar yr eithriadau arfaethedig wedi'u hatodi yn Atodiad 1.

Yn ystod y cyfnod hysbysebu cyhoeddus ffurfiol, daeth 103 o ymatebion i law ynghylch y cynigion. Cyfeiriodd llawer o'r ymatebion at fwy nag un o'r cynigion a gyflwynwyd.

Yn y tabl a ganlyn, ceir dadansoddiad o'r ymatebion a ddaeth i law –

Cyfanswm yr ymatebion a ddaeth i law	103	
Adborth a ddaeth i law yn cefnogi'r cynnig 30mya	37	35.9%
Gwrthwynebiadau a ddaeth i law oedd yn cefnogi cadw'r 20mya presennol	56	54.4%
Adborth a ddaeth i law oedd yn anghytuno, at ei gilydd, â therfynau 20mya	10	9.7%

2.0 Y sefyllfa sydd ohoni

Yn yr adran a ganlyn, ceir rhagor o fanylion ynghylch y sylwadau a ddaeth i law ar gyfer pob cynnig. Yr hyn y mae'n rhaid i'r Pwyllgor ei wneud yw ystyried y gwrthwynebiadau a ddaeth i law i bob cynnig. Er gwybodaeth a chyd-destun, nodir isod y nifer sy'n cefnogi pob cynnig.

Yn Atodiad 1, ceir copi o'r Hysbysiad Cyhoeddus ar gyfer pob cynllun, ynghyd â chynlluniau ar gyfer pob cynnig unigol. Hefyd, yn Atodiad 2, ceir copïau o'r gwrthwynebiadau i bob cynnig a ddaeth i law ac sydd wedi'u golygu.

2.1 Cynllun 1 – Ward Twrcelyn

Safle Arfaethedig	Cefnogaeth a ddaeth i law i'r Cynnig 30mya	Gwrthwynebiadau a ddaeth i law Cadw'r 20mya
Amlwch A5025	23	2
Amlwch, Lôn Parys i Ffordd Madyn	20	1
Porth Llechog, A5025	22	4

Crynodeb o'r gwrthwynebiadau i gynigion ar gyfer yr A5025 a Lôn Parys i Ffordd Madyn

Cododd un gwrthwynebydd bryderon ynghylch y tri chynnig yn ardal Amlwch ar y sail y byddai codi'r terfyn cyflymder yn cael effaith niweidiol ar ddiogelwch cerddwyr a beicwyr ac yn rhwystro cyfleoedd teithio llesol, fel y nodwyd mewn astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer yr ardal hon.

Crynodeb o'r gwrthwynebiadau i'r cynnig ar gyfer yr A5025 Bae Llechog

Yn ogystal â'r gwrthwynebydd oedd â phryderon y byddai'r cynnig yn cael effaith niweidiol ar gyfleoedd teithio llesol, cafwyd gwrthwynebiadau eraill gan drigolion Trecastell a Glan y Don, Bae Llechog. Roeddynt o'r farn y byddai codi'r terfyn cyflymder yn cael effaith niweidiol ar ddiogelwch oherwydd na fyddai modd gweld yn ddigon da wrth adael yr A5025. Hefyd bod y cyfleusterau 20mya presennol yn gymorth i gerddwyr groesi'r A5025.

Ymateb yr Awdurdod Lleol i'r materion a godwyd

Roedd yr Awdurdod o'r farn fod yr eithriadau arfaethedig ar gyfer Ward Twrcelyn yn gyson â meini prawf diwygiedig Llywodraeth Cymru. O ystyried natur a swyddogaeth y ffordd a nifer fechan y tai oedd cyfagos, ni fyddai'n realistig disgwyl i fodurwyr yrru ar 20mya ar y ffyrdd hyn. At hyn, mae'r eithriad arfaethedig ar gyfer Bae Llechog yn dod i ben cyn y gyffordd i Dre Castell a Glan y Don a byddai'r terfyn 20mya yn parhau ar y pwynt hwn. Fel hyn, byddir yn mynd i'r afael â'r pryderon diogelwch a godwyd.

2.2 Cynllun 2 – Ward Canolbarth Môn

Safle Arfaethedig	Cefnogaeth a ddaeth i law i'r Cynnig 30mya	Gwrthwynebiadau a ddaeth i law Cadw'r 20mya
Bodffordd, ffordd ddynesu'r A5	20	3
Ffordd y Stad Ddiwydiannol, Llangefni,	21	2
Rhosmeirch, ffordd ddynesu'r B5111 Coedana	21	1
Talwrn, ffordd yr hen ysgol (oherwydd bod yr ysgol wedi cau)	20	2

Crynodeb o'r gwrthwynebiadau i'r cynnig ar gyfer yr A5 Bodffordd

Daeth dau wrthwynebiad i law gan drigolion lleol ym Modffordd ynghylch eiddo yn wynebu'r darn eithriedig arfaethedig. Tynnwyd sylw ganddynt at fanteision y terfyn 20mya presennol a'r ffaith y byddai codi'r terfyn i 30mya yn cael effaith niweidiol ar ddiogelwch ar y ffyrdd.

Crynodeb o'r gwrthwynebiadau i'r cynnig ar gyfer Stad Ddiwydiannol Llangefni

Roedd grŵp beicio ym Mangor o'r farn nad oedd yr eithriad arfaethedig ar gyfer Stad Ddiwydiannol Llangefni yn unol â meini prawf Llywodraeth Cymru. Cododd y gwrthwynebydd arall bryderon ynghylch cerbydau'n gyrru pe câi'r eithriad ei gymeradwyo a bod mwy o bobl yn cerdded ar hyd y palmentydd yma yn sgil cyflwyno'r terfyn 20mya.

Crynodeb o'r gwrthwynebiadau i'r cynnig ar gyfer ffordd ddynesu Coedana B5111 Rhosmeirch

Roedd cynrychiolydd Beicio Bangor o'r farn nad oedd y cynnig ar gyfer Rhosmeirch yn unol â meini prawf Llywodraeth Cymru ar gyfer eithriadau 20mya ond ni chyflwynodd unrhyw dystiolaeth i ategu hyn.

Crynodeb o'r gwrthwynebiadau i'r cynnig ar gyfer y ffordd heibio i hen ysgol gynradd Talwrn

Gwrthwynebodd preswlydd lleol y cynnig ar gyfer y ffordd heibio i hen ysgol gynradd Talwrn ar y sail ei bod yn anaddas i yrru 30mya arni. Nododd y cyngor cymuned, hefyd, bod y ffordd hon yn boblogaidd gyda cherddwyr a beicwyr ac y byddai codi'r terfyn cyflymder yn cael effaith niweidiol ar ddiogelwch ar y ffordd.

Ymateb yr Awdurdod Lleol i'r materion a godwyd

Roedd yr Awdurdod o'r farn fod yr eithriadau arfaethedig ar gyfer Ward Canolbarth Môn yn gyson â meini prawf diwygiedig Llywodraeth Cymru. O ystyried natur a swyddogaeth y ffyrdd a nifer fechan y tai oedd cyfagos, ni fyddai'n realistig disgwyl i fodurwyr yrru ar 20mya ar y ffyrdd arfaethedig ac eithrio'r un heibio i hen ysgol gynradd Talwrn. Cefn gwlad agored sy'n ffinio â'r mwyafrif o'r cynigion ar gyfer Bodffordd a Rhosmeirch, gyda phalmant ar un ochr i'r ffordd yn sicrhau y gall cerddwyr gerdded i gyfleusterau lleol yn ddiogel.

2.3 Cynllun 3 – Wardiau'r Llynnoedd / Crigyll / Aberffraw / Talybolion

Safle Arfaethedig	Cefnogaeth a ddaeth i law i'r Cynnig 30mya	Gwrthwynebiadau a ddaeth i law Cadw'r 20mya
Bryn Du, ffordd ddienw dosbarth 3	20	1
Caergeiliog, ffordd ddynesu'r A5 Bryngwran	20	0
Llanfachraeth, A5025	22	4
Llanfihangel yn Nhowyn, Awyrlu'r Fali, Ffordd Minffordd	21	1
Niwbwrch, ffordd ddynesu'r A4080 Malltraeth	22	4
Rhosneigr, ffordd ddynesu'r A4080 Llyn Maelog	22	3

Crynodeb o'r gwrthwynebiadau i'r cynnig ar gyfer Bryn Du

Daeth gwrthwynebiad i law gan Feicio Bangor i'r cynnig ar gyfer Bryn Du ar y sail nad oedd y meini prawf eithrio wedi'u bodloni ond ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth bellach i ategu hyn.

Crynodeb o'r gwrthwynebiadau i'r cynnig ar gyfer Llanfachraeth

Yn ogystal â'r gwrthwynebiad a godwyd gan Feicio Bangor, daeth tri gwrthwynebiad arall i'r cynnig i law. Roedd un yn dymuno cadw'r 20mya ond ni chyflwynodd unrhyw wybodaeth bellach i ategu hyn. Cododd y ddau wrthwynebiad arall bryderon ynghylch yr effaith a gâi cerbydau'n gyrru ar gerddwyr a phlant sy'n defnyddio'r ardal hon o Lanfachraeth yn rheolaidd a phroblemau cynyddol wrth adael eiddo i ddod i'r darn hwn o'r ffordd. Hefyd, gallai'r eithriad arfaethedig arwain at gerbydau'n gyrru yn y darn sy'n weddill o'r terfyn 20mya yn y pentref.

Crynodeb o'r gwrthwynebiadau i'r cynnig ar gyfer Llanfihangel-yn-nhowyn, Awyrlu'r Fali, Ffordd Minffordd

Yn yr un modd â'r lleoliadau eraill, daeth gwrthwynebiad i'r cynnig hwn i law gan Feicio Bangor ar y sail nad oedd y meini prawf eithrio wedi'u bodloni ond ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth bellach i ategu hyn.

Crynodeb o'r gwrthwynebiadau i'r cynnig ar gyfer yr A4080 yn Niwbwrch

Yn ogystal â gwrthwynebiad Beicio Bangor, daeth tri gwrthwynebiad arall i'r cynnig i law. Soniodd un o'r gwrthwynebwyr am y gwelliant arfaethedig i Deithio Llesol yma ac y byddai codi cyflymder cerbydau'n cael effaith niweidiol ar ymdrechion i gael mwy o bobl i gerdded a beicio. Disgrifiodd y gwrthwynebydd arall y problemau cyflymder presennol yma, yn enwedig y rhai a geir wrth adael y pentref tuag at Falltraeth. Nododd y gwrthwynebydd olaf fanteision teithio'n arafach wrth amddiffyn defnyddwyr a phlant bregus yn yr ardal breswyl hon o Niwbwrch. Hefyd, bod pryderon bod y cynnig yn groes i'r cynnig Teithio Llesol ar gyfer y pentref ac y byddai'n annog cerddwyr a beicwyr i beidio â defnyddio'r ffordd. At hyn, dywedodd y gwrthwynebydd bod mwy o ymdeimlad o gymuned yn y pentref pan fo cerbydau'n teithio'n arafach, gan eu bod yn gwneud y lle'n fwy pleserus a diogel i gerdded ynddo.

Crynodeb o'r gwrthwynebiadau i'r cynnig ar gyfer Llyn Maelog, Rhosneigr

Ailgyflwynwyd dau wrthwynebiad pellach i'r cynnig ar gyfer Rhosneigr yn ogystal â'r un a gyflwynwyd gan Feicio Bangor. Nododd y ddau wrthwynebydd nad oedd y cynnig yn cydymffurfio â'r terfyn cyflymder 20mya presennol ac y byddai'r cynnig yn annog cerbydau i yrru'n gyflymach i mewn i'r pentref. Hefyd, roedd yr ardal yn boblogaidd gyda cherddwyr yn defnyddio'r llwybr pren cyfagos tuag at Llyn Maelog ac y byddai codi cyflymder yn cael effaith niweidiol ar ddiogelwch ar y ffordd.

Ymateb yr Awdurdod Lleol i'r materion a godwyd

Ni chredir bod gwrthwynebydd Beicio Bangor wedi cyflwyno rheswm dilys i'r cynnig ar gyfer Bryn Du.

Gyda nifer fach iawn o dai cyfagos, credir bod y cynnig ar gyfer Llanfachraeth yn gyson â'r canllawiau diwygiedig a gyflwynwyd i awdurdodau lleol wrth ystyried safleoedd eithrio. Mae'r A5025 yma yn llwybr strategol ac nid oes fawr ddim datblygiadau ar ochr y ffordd ar hyd y darn hwn. At hyn, ceir palmentydd ar y darn eithrio arfaethedig, gan fynd i'r afael â'r pryderon ynghylch diogelwch cerddwyr.

Gan nad oes tystiolaeth ategol, credir nad yw'r gwrthwynebiad a godwyd i'r cynnig ar gyfer Llanfihangel-yn-nhowyn gan Feicio Bangor yn ddilys.

Ers yr adolygiad gwreiddiol o'r cynnig eithriad ar gyfer y A4080 i mewn i Niwbwrch o Falltraeth mae'r Awdurdod wedi derbyn cyllid ar gyfer sefydlu palmant newydd i gysylltu'r pentref gyda Llyn Parc Mawr. Mae'r cynnig hefyd yn cynnwys mesurau arafu traffig a diogelwch y ffordd ar y rhan a ystyrir ar gyfer eithriad 20mya. Yng ngolwg hyn ceir cynnig bod yr eithriad arfaethedig ddim yn cael ei weithredu a bod y cyfyngiad cyflymder 20mya yn cael ei gadw.

Mae'r cynnig i gyflwyno cyfyngiad 40mya ar y ffordd i mewn i Rosneigr yn cymryd i ystyriaeth y materion a godwyd gan y gwrthwynebwyr. Nid yw'r cynnig yn ymestyn mor bell â lle mae'r llwybr troed yn dechrau o amgylch Llyn Maelog.

2.4 Cynllun 4 – Ward Bodowyr Ward

Safle Arfaethedig	Cefnogaeth a ddaeth i law i'r Cynnig 30mya	Gwrthwynebiadau a ddaeth i law Cadw'r 20mya
Gaerwen, Lôn Groes – ffordd y stad ddiwydiannol	20	4
Llanddaniel, ffordd ddynesu'r A5	20	5
Llanddaniel, ffordd ddynesu Llanedwen	20	5

Llanddaniel, ffordd ddynesu'r groesfan wastad	20	5
---	----	---

Crynodeb o wrthwynebiadau i Lôn Groes – Ffordd y Stad Ddiwydiannol

Daeth gwrthwynebiad i law gan Feicio Bangor i'r cynnig ar gyfer Lôn Groes ar y sail nad oedd y meini prawf eithrio wedi'u bodloni ond ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth bellach i ategu hyn. Gwrthwynebodd Cyngor Cymuned Llanfihangel Ysceifiog i'r cynnig, hefyd, gan ei fod yn credu nad oedd digon o ystyriaeth wedi'i rhoi i eithrio ffyrdd eraill yn y stad ddiwydiannol. Cyfeiriodd gwrthwynebydd arall at bryderon ynghylch diogelwch ar y ffordd o ran cerbydau'n gyrru, yn enwedig wrth ymyl y cae pêl-droed. Tynnodd gwrthwynebydd arall sylw at y ffaith fod cerbydau trwm a mawr yn defnyddio'r ffordd hon. Dywedodd y dylai Lôn Groes aros yn ffordd 20mya a rampiau tawelu traffig gael eu gosod, gan nad oedd yn credu bod modurwyr yn cydymffurfio â'r cyfyngiadau traffig presennol. Aeth ymlaen, hefyd, i nodi nad oedd palmant rhwng Gaerwen Uchaf a Lôn Capel.

Crynodeb o wrthwynebiadau i ffordd ddynesu'r A5 i Llanddaniel

Gwrthwynebodd preswlydd lleol i'r eithriad arfaethedig ar gyfer Llanddaniel ar ffordd ddynesu'r A5. Nododd nad oedd modd gweld yn dda iawn, bod rhannau cul ar y darn hwn o ffordd, nid oedd palmentydd a bod angen i gerbydau yrru'n arafach er lles diogelwch cerddwyr a beicwyr. Gwnaed gwrthwynebiad tebyg eto gan breswlydd lleol yn nodi bod y terfyn 20mya presennol wedi gwella diogelwch i gerddwyr a beicwyr, gyda mwy o le ar gael i basio a llai o sŵn a llygredd. Hefyd, nad oedd yn bosibl gyrru'n ddiogel ar 30mya ar y darn hwn o ffordd ac, felly, nid oedd angen yr eithriad arfaethedig. Cododd gwrthwynebydd arall bryderon ynghylch effaith cerbydau'n gyrru ar boblogaeth y wiwer goch, bod, hefyd, nifer o dai ar hyd y llwybr ac, o'r herwydd, gerddwyr, a chysylltiadau â llwybrau troed cyhoeddus cyfagos. At hyn, bod y ffordd gerbydau'n gul mewn mannau ac yn anaddas i gerbydau yrru'n gyflym arno. Cododd Cyngor Cymuned Llanddanielfab wrthwynebiadau tebyg i'r rhai a godwyd gan y trigolion lleol. Gwrthwynebodd Beicio Bangor i'r cynnig hwn ond ni chyflwynodd dystiolaeth i ategu hyn.

Crynodeb o wrthwynebiadau i'r ffordd ddynesu at Lanedwen

Yn yr un modd â'r lleoliadau eraill, derbyniwyd gwrthwynebiad i'r cynnig hwn gan Feicio Bangor ar y sail nad oedd y meini prawf eithrio wedi'u bodloni ond ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth bellach i gefnogi hyn. Gwrthwynebodd y Cyngor Cymuned gan nodi rhannau cul o'r ffordd, nid oedd modd gweld yn ddigon da a dim palmant ar hyd y llwybr hwn. Cyfeiriwyd, hefyd, at y safle hanesyddol ym Mryn Celli Ddu a symudiadau cerddwyr cysylltiedig ynghyd â fferm laeth gerllaw gyda symudiadau traffig cysylltiedig. Gwrthwynebodd preswlydd lleol, oedd hefyd wedi

gwrthwynebu'r cynnig ar y ffordd ddynesu at Landdaniel ar yr A5, y cynnig hwn am resymau tebyg i'r rhai a gyflwynwyd gan y cyngor cymuned. Roedd preswilydd arall oedd, hefyd, wedi gwrthwynebu'r cynigion eraill, yn dweud bod y terfyn 20mya presennol wedi gwella diogelwch cerddwyr a beicwyr, gyda llai o sŵn a llygredd. O ran y ffordd ddynesu at Llanedwen, nodwyd rhannau cul o'r ffordd, cysylltiadau â llwybrau troed cyhoeddus cyfagos ac nad oedd yn ymarferol nac yn ddiogel gyrru ar gyflymder uwch nag 20mya ar y llwybr hwn. Yn yr un modd â'r hyn a godwyd gyda'r cynigion eraill, cododd preswilydd lleol bryderon ynghylch cyflymder cerbydau ar boblogaeth y wiwer goch a, hefyd, bod nifer o dai ar hyd y llwybr ac, yn benodol, bod person â golwg rhannol yn cerdded ar hyd y rhan hon o'r ffordd. At hyn, bod y ffordd gerbydau'n gul mewn mannau ac yn anaddas i gerbydau yrru'n gyflym arni.

Crynodeb o wrthwynebiadau i'r groesfan wastad

Cododd preswilydd lleol bryderon diogelwch ynghylch y cynnig i godi cyflymder cerbydau rhwng Llanddaniel a'r groesfan wastad. Nododd nad oedd palmant ar rai rhannau o'r llwybr hwn a bod y terfyn 20mya yn gwneud y llwybr yn fwy dymunol ar gyfer cerdded a beicio, yn enwedig gan nad oedd gwasanaeth bws ar gael yn Llanddaniel. Gwrthwynebodd y Cyngor Cymuned y cynigion ar gyfer Llanddaniel gan nodi ffactorau megis cyflymder amhriodol a maint cerbydau yn yr ardal ac anawsterau wrth gerdded i arosfannau bysiau ond ni chyflwynodd wrthwynebiadau penodol ynghylch y cynnig hwn. Roedd preswilydd a wrthwynebodd y ddau gynnig arall ar gyfer Llanddaniel, hefyd, o'r farn fod yr eithriad arfaethedig i'r llwybr hwn yn rhy fyr ac, felly, nid oedd ei angen. Mynegodd preswilydd arall oedd, unwaith eto, wedi gwrthwynebu'r cynnig arall ar gyfer Llanddaniel, bryderon ynghylch effaith cerbydau'n gyrru ar boblogaeth y wiwer goch. Hefyd, bod nifer o dai yn wynebu'r llwybr eithrio ac y byddai'r cynnig yn cael effaith niweidiol ar annog pobl i gerdded a beicio ac ar ddiogelwch pobl y gymuned.

Ymateb yr Awdurdod Lleol i'r materion a godwyd

Nid oes tai ar hyd Lôn Groes, Stad Ddiwydiannol Gaerwen, lle bwriedir cyflwyno'r eithriad 20mya ac mae'r canllawiau diwygiedig yn cyfeirio'n benodol at ystyried eithriad mewn stadau diwydiannol lle nad oes llawer o gerddwyr. Gan mai dyma'r prif lwybr mynediad i'r stad ddiwydiannol, y gred yw ei bod yn briodol ystyried eithriad. Nid yw'r cynnig yn ymestyn cyn belled â Gaerwen Uchaf ac mae'r rhan hon yn parhau ar 20mya.

Mae nifer y tai ar ffordd ddynesu A5-Llanddaniel, fesul cilomedr, yn ddigon isel i allu ystyried eithriad. Mae cefn gwlad agored yn ffinio â'r mwyafrif o'r llwybr, felly, credir bod y cynnig hwn yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar ystyried safleoedd eithrio.

Yr un yw'r sefyllfa gyda ffordd ddynesu Llanedwen i Landdaniel, felly, unwaith eto, credir bod y cynnig hwn yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar safleoedd eithrio. Mae'r mwyafrif o'r llwybr rhwng Llanddaniel a'r groesfan wastad ar hyd cefn gwlad agored,

Ile nad oes fawr ddim tai ar ochr y ffordd ac mae o dan y trothwy ar gyfer ystyried terfyn cyflymder 20mya. Yn ogystal, mae palmant ar hyd y llwybr ac, felly, credir bod y rhan hon yn gyson â'r canllawiau diwygiedig.

2.5 Cynllun 5 – Ward Cybi

Safle Arfaethedig	Cefnogaeth a ddaeth i law am y Cynnig 30mya	Gwrthwynebiadau a ddaeth i law Cadw'r 20mya
Caergybi A5153, Parc Cybi	21	1
Caergybi A5154, Ffordd Victoria	21	2
Trearddur, B4545 Dwyrain Lôn St Ffraid	22	6

Crynodeb o'r gwrthwynebiad i'r cynnig ar gyfer yr A5153 Parc Cybi

Yn yr un modd â'r lleoliadau eraill, daeth gwrthwynebiad i'r cynnig hwn gan Feicio Bangor ar y sail nad oedd y meini prawf eithrio wedi'u bodloni ond ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth bellach i ategu hyn.

Crynodeb o'r gwrthwynebiadau i'r cynnig ar gyfer yr A5154 Ffordd Victoria

Gwrthwynebodd Beicio Bangor y cynnig hwn am y rhesymau a fanylwyd yn y cynnig blaenorol. Daeth gwrthwynebiad arall i law ar y sail mai dim ond darn byr yw hwn ac y byddai newid y terfyn cyflymder yn drysu modurwyr. Hefyd, cyfeiriwyd at barcio ar hyd un ochr i Ffordd Victoria, gyda cherddwyr yn mynd i ganol y dref ac oddi yno ac, felly, byddai'n fwy diogel cadw'r terfyn 20mya presennol.

Crynodeb o'r gwrthwynebiadau i'r cynnig ar gyfer y B4545 Dwyrain Lôn St Ffraid.

Fel gyda'r ddau gynnig arall ar gyfer Ward Cybi, gwrthwynebodd Beicio Bangor y cynnig hwn hefyd ond ni chyflwynodd dystiolaeth i ategu hyn. Nododd gwrthwynebydd arall y byddai'r eithriad arfaethedig yn ddryslyd oherwydd ei hyd byr a bod y llwybr yn boblogaidd gyda cherddwyr a beicwyr. Nododd gwrthwynebydd arall eto bod angen amddiffyn cerddwyr a beicwyr gyda'r terfyn cyflymder presennol. Roedd un gwrthwynebydd o'r farn nad oedd dim i'w ennill o gyflwyno darn byr o 30mya ac roedd ganddo bryderon na fyddai modurwyr wedyn, o bosibl, yn arafu wrth deithio trwy Drearddur. Roedd gwrthwynebydd pellach yn dymuno cadw'r terfyn cyflymder 20mya presennol ond ni chyflwynodd resymau i ategu hyn. Roedd y gwrthwynebydd olaf o'r farn bod angen y terfyn cyflymder 20mya presennol i amddiffyn cerddwyr a beicwyr ac y byddai unrhyw newidiadau'n drysu modurwyr.

Ymateb yr Awdurdod Lleol i'r materion a godwyd

Oherwydd nad oedd rhesymau ategol, credir nad yw'r gwrthwynebiadau a godwyd gan Feicio Bangor i'r cynnig ar gyfer yr eithriad ar hyd A5153 Parc Cybi yn ddilys.

Gan nad oes tai ar hyd Ffordd Victoria, Caergybi, bod yno fannau croesi a bod modd gweld traffig sy'n dod tuag atoch yn dda, credir bod y cynnig hwn yn gyson â'r canllawiau a gyflwynwyd wrth ystyried safleoedd eithrio.

Gan nad oes llawer o dai ar hyd y cynnig B4545 Lôn St Ffraid, a bod palmant yno er lles diogelwch cerddwyr, credir bod y cynnig yn gyson â'r ddogfen ganllawiau.

2.6 Cynllun 6 – Wardiau Seiriol ac Aethwy

Safle Arfaethedig	Cefnogaeth a ddaeth i law am y Cynnig 30mya	Gwrthwynebiadau a ddaeth i law Cadw'r 20mya
Llandegfan, Ffordd yr Eglwys	20	1
Llanfaes, ffordd ddienw Dosbarth 3 o'r B5109	20	1
Llanfair PG A5025 wrth ymyl y cyfleuster parcio a theithio	24	2

Crynodeb o'r gwrthwynebiad i'r cynnig ar gyfer Ffordd yr Eglwys, Llandegfan

Gwrthwynebwyd y cynnig gan farchog lleol a nododd bryderon diogelwch ynghylch cyflymder uwch ar y darn hwn o'r ffordd. Hefyd, bod y llwybr yn brysur, gyda chyffordd lle nad oedd modd gweld yn dda ohoni.

Crynodeb o'r gwrthwynebiad i'r cynnig ar gyfer Llanfaes

Cododd Cyngor Tref Biwmares wrthwynebiadau i'r cynnig hwn ar y sail y byddai'n drysu modurwyr ac y byddai goblygiadau posibl ar ailddatblygu hen safle Lairds. Cyfeiriwyd, hefyd, at ordyfiant a cherbydau'n tynnu allan i osgoi hyn, ynghyd â nifer o gerddwyr yn defnyddio'r llwybr hwn. Yn olaf, codwyd pryderon ynghylch perygl mwy o wrthdrawiadau wrth i gerbydau yrru'n gyflymach.

Crynodeb o'r gwrthwynebiadau i'r cynnig ar gyfer A5025 Llanfair-pwll

Gwrthwynebodd preswlydd lleol y cynnig hwn gan nodi nad oedd modd gweld yn ddigon da wrth adael y gyffordd o'r cartref gofal a'r cyfleuster parcio a rhannu cyfagos. Cyfeiriodd, hefyd, at wrthdrawiadau ar gyffyrdd ffordd ymuno'r A55 a chredai fod y sefyllfa wedi gwella ers cyflwyno'r terfyn 20mya. Roedd gan wrthwynebydd arall bryderon ynghylch cyffyrdd slipffordd yr A55 gyda'r A5025 gan nad oedd modurwyr yn arafu ddigon ac y byddai'r newid arfaethedig yn eu hannog i yrru'n gyflymach ac yn peryglu bywydau.

Ymateb yr Awdurdod Lleol i'r materion a godwyd

Gan gyfeirio at y gwrthwynebiad a ddaeth i law ar gyfer Llandegfan, nid yw'r canllawiau eithrio diwygiedig yn cyfeirio at ystyried marchogion wrth adolygu safleoedd. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod wedi adolygu'r lleoliad ac yn credu bod modd i fodurwyr weld pan fo marchogion yn yr ardal eithrio arfaethedig, a hynny oherwydd cynllun y ffordd. Gellir codi arwyddion yma i rybuddio modurwyr y gallai marchogion fod ar y ffordd gerbydau.

Mae'r cynnig ar gyfer Llanfaes yn gyson â'r meini prawf eithrio diwygiedig gan nad oes unrhyw dŷ cyfagos ar hyd y cynnig a bod palmant ar un ochr i'r ffordd. Mae'r ffordd yn ddigon llydan ac agored ar gyfer llif traffig dwy ffordd.

